# Ynni Cymru

# Cynllun Cyllid Grant Cyfalaf 2026-27

## Gofynion a Chanllawiau'r Cynllun

**HYSBYSIAD PWYSIG – Oherwydd Etholiad y Senedd ym Mai 2026, rhaid i ymgeiswyr nodi y bydd y penderfyniad ynghylch dyrannu arian i raglen grant 2026-27 yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad.**

# Cynnwys


Diben y ddogfen hon....4
Trosolwg o Grant Ynni Cymru....5
- Cyflwyno a Gweinyddu'r Cynllun....5
- Y Cyllid a Gynigir a'r Prif Ofynion....5
- Rhestr Wirio'r Cais....6
- Trosolwg o'r broses ymgeisio a dethol....9
- Newidiadau i Safle'r Prosiect ar ôl Gwneud Cais....9

Gofynion Mandadol y Cynllun....10
- Pwy All Wneud Cais....10
- Ceisiadau ar y Cyd....10
- Technolegau Cymwys....11
- Cymhwystra - Cydsyniad, Caniatâd, a Pharodrwydd y Safle....14
- Isafswm Gofyniad Cyllid Cyfatebol....17

Meini Prawf Asesu....18
- Cyfatebiaeth i egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar (SLES)....18
- Y tebygolrwydd o gyflawni'r prosiect....19
- Buddion....22
- Manylion Costau a Chaffael y Prosiect....25
- Y Dull Caffael....28
- Defnyddio Arian Cyhoeddus....32

Arfer Da ac Ymddygiad Disgwyliedig (Nas Asesir)....34
- Safonau'r Diwydiant....34
- Diogelu Data....34
- Cydnerthedd y Grid....35
- Gwaredu Gwastraff....35

Gwybodaeth Bwysig....37
- Statws Cyfreithiol, Atebolrwydd ac Amodau'r Rhaglen....37
- Talu'r Cyllid Grant....38
- Cymorth a Gwybodaeth Gyswllt....40

Rhestr Termau....41

Atodiad 1 – Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES)....43

Atodiad 2 – Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) .......... 45
Atodiad 3 – Caniatâd Cynllunio .......... 46
Atodiad 4 – Asesiadau ac Arolygon .......... 50
Atodiad 5 – Cynlluniau Cyllid Eraill .......... 52
Atodiad 6 – Amodau Rhagariannu .......... 55
Atodiad 7 – Cwestiynau ac Atebion o Gweminar Cynllun Grant Cyfalaf Ynni Cymru 57

## Diben y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau i helpu ymgeiswyr sy’n cyflwyno cais i Gynllun Grant Cyfalaf Ynni Cymru 2026–2027. Mae’n esbonio gofynion mandadol y cynllun, y meini prawf asesu, a’r disgwyliadau o ran arfer da.

I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i ymgeiswyr fodloni holl ofynion mandadol y cynllun. Bydd y meini prawf asesu yn cael eu sgorio ac yn ffurfio rhan o’r penderfyniad cyllido. Mae canllawiau arfer da wedi’u cynnwys i gefnogi cyflwyno prosiectau o ansawdd uchel ond ni fyddant yn cael eu hasesu.

Darperir y ddogfen hon fel canllaw yn unig ac nid oes iddi effaith gyfreithiol. Mae’r sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw ddyfarniad wedi’i nodi yn Amodau Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru a gyflwynir i ymgeiswyr llwyddiannus.

# Trosolwg o Grant Ynni Cymru

Mae Llywodraeth Cymru, trwy Ynni Cymru, yn cefnogi'r broses o gyflwyno Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) ledled Cymru. Mae hyd at £10 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael o dan Gam 3 y cynllun Grantiau Cyfalaf.

Ni ellir defnyddio cyllid ond ar gyfer gwaith cyfalaf cymwys a gyflwynir o fewn amserlen y grant. Bydd unrhyw gostau a godir cyn rhyddhau Llythyr Gwobr Grant Llywodraeth Cymru, neu unrhyw bryd y tu allan i gyfnod y grant, yn anghymwys.

Cyflwynir y cynllun trwy ddau lwybr ymgeisio:

- **Llwybr 1** – Prosiectau Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES)
- **Llwybr 2** – Prosiectau Systemau Ynni Lleol Clyfar arloesol

Asesir y ceisiadau o dan y ddau lwybr ar sail gystadleuol gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Cyfatebiaeth i egwyddorion SLES Ynni Cymru
- Y tebygolrwydd o gyflawni'r prosiect
- Buddion i'r sefydliad, y gymuned leol, yr amgylchedd, ac unrhyw effaith ehangach
- Costau'r prosiect, y dull caffael, a gwerth am arian

Bydd cynnydd asesu o 5% yn cael ei gymhwyso i brosiectau sy'n cyrraedd y marc trothwy sylfaenol ac yn gwireddu buddion yn yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, a fesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Gall ymgeiswyr wirio eu hardal trwy ddefnyddio offer chwilio MALIC - yma.

## Cyflwyno a Gweinyddu'r Cynllun

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) fydd yn gweinyddu ac yn rheoli'r grantiau i dderbynwyr yn y sector preifat a rhai sefydliadau ynni cymunedol ar ran Ynni Cymru. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio hawliadau grantiau, monitro, llunio adroddiadau a chydymffurfiaeth ag amodau'r grantiau. Dylai ymgeiswyr nodi y gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru fod yn brif ddolen gyswllt at ddibenion gwaith cyflawni, sicrwydd ac archwilio yn dilyn y dyfarniad.

## Y Cyllid a Gynigir a'r Prif Ofynion

I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i brosiectau fodloni'r gofynion canlynol:

- Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni a'u cyflenwi yn eu cyfanrwydd erbyn 31 Mawrth 2027.
- Y canlynol yw'r isafswm cyfraniad arian cyfatebol:
  - 25% ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus
  - 25% ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig
  - 0% ar gyfer sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol
- Rhaid i brosiectau fod o fewn trothwyon cyllid y llwybr perthnasol:
  - Llwybr 1: £25,000-£299,999.99 fesul prosiect

    - Llwybr 2: £300,000-£999,999.99 fesul prosiect
- Rhaid i bob cais ymwneud ag SLES sengl (caniateir systemau integredig ar sawl safle)
- Y grant mwyaf a ddyfernir:
    - £999,999.99 fesul prosiect
    - £999,999.99 fesul sefydliad (ar draws yr holl geisiadau)

Mae'r cyllid sydd ar gael a lefelau'r dyfarniad yn amodol ar y gofynion rheoli cymorthdaliadau. Darperir manylion pellach yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol yn y canllawiau hyn.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12pm ar 7 Mai 2026 a rhaid cyflawni'r prosiectau erbyn 31 Mawrth 2027.

## Rhestr Wirio'r Cais

Yr ymgeisydd arweiniol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y prosiect yn barod i gyflwyno cais. Os na wneir hynny, mae perygl y bydd eich cais yn anghymwys neu'n derbyn sgôr wael. Dylai ymgeiswyr fedru cadarnhau'r canlynol:

- Bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn y cais yn gywir, yn gyflawn ac yn gyson.
- Bod y cynnig yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn adran Gofynion Mandadol y Cynllun.
- Bod y llwybr ymgeisio cywir wedi'i ddewis a bod y cais o fewn yr ystod gostau.
- Bod y dechnoleg a gynigir yn gymwys ac yn rhan o System Ynni Lleol Clyfar (SLES).
- Bod modd bodloni'r gofynion arian cyfatebol a darparu tystiolaeth o hynny pan fydd angen.
- Rhaid i brosiectau Llwybr 1 ddangos eu bod yn gymwys trwy ddarparu tystiolaeth bod modd rhesymol iddynt sicrhau'r cydsyniad perthnasol o fewn amserlen y prosiect.
- Disgwylir i brosiectau Llwybr 2 ddangos lefel uwch o barodrwydd. Lle bo'r angen, dylai fod ymgeiswyr wedi cychwyn prosesau ffurfiol neu ddarparu tystiolaeth gref a lefel uchel o hyder y bydd pob cydsyniad angenrheidiol yn cael ei sicrhau o fewn amserlen arfaethedig y prosiect.
- Bod cynllun cyflawni clir ar waith ar gyfer y prosiect ac amserlen glir, sy'n dangos bod modd cyflawni a chyflwyno'r prosiect cyfan erbyn 31ain Mawrth 2027.
- Bod y risgiau o ran cyflawni'r prosiect wedi'u nodi a bod camau lliniaru priodol wedi'u hystyried.
- Bod modd i fuddion y prosiect, gan gynnwys budd i'r sefydliad, i'r gymuned, i'r amgylchedd ac i'r system ehangach gael eu cyfleu'n glir a'u mesur lle bo modd.
- Bod dadansoddiad manwl o gostau'r prosiect wedi'i baratoi, sy'n nodi'n glir y costau cymwys, yr arian cyfatebol ac unrhyw waith galluogi.

- Bod y gofynion caffael wedi cael eu hystyried a bod dull caffael priodol wedi'i nodi i gyd-fynd â gofynion y cynllun.

## Llwybrau Ariannu

Cyfeiriwch at adran System Ynni Lleol Clyfar (SLES)  ac Atodiad 1 – Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) i gael rhagor o wybodaeth am SLES.

Cyflwynir y cynllun trwy ddau lwybr, pob un â'u ffurflen gais eu hunain. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyflwyno cais trwy'r llwybr cywir:

1. **Prosiectau System Ynni Lleol Clyfar**
2. **Prosiectau System Ynni Lleol Clyfar Arloesol**

Darperir manylion pellach am bob llwybr isod.

### *Llwybr 1: Prosiectau System Ynni Lleol Clyfar*

Mae'r llwybr hwn yn cefnogi prosiectau ac iddynt gostau rhwng £25,000 a £299,999. Dylai'r prosiectau hyn sefydlu neu wella SLES mewn ardal leol.  Bydd y rhan fwyaf o brosiectau yn canolbwyntio ar un safle neu adeilad, er y gellir ystyried prosiectau ar sawl safle os ydynt yn gweithredu gyda'i gilydd yn rhan o SLES ehangach.

Rhaid i brosiectau gynnwys gwresogi carbon isel a chynhyrchu adnewyddadwy, a gallant hefyd ymgorffori technolegau cymwys ychwanegol megis gwefru cerbydau trydan, a systemau storio ynni batri. Rhaid i'r technolegau a ddewisir weithio'n effeithiol yn unigol ac yn rhan o system integredig. Dylai ymgeiswyr egluro sut y bydd dyluniad y SLES yn sicrhau'r defnydd gorau o ynni ar y safle, yn sicrhau'r arbedion mwyaf ac, os bydd hynny'n briodol, yn ceisio refeniw ychwanegol trwy dariffau clyfar, gwasanaethau sy'n cynnig hyblygrwydd neu gyflenwi lleol.

### *Llwybr 2: Prosiectau System Ynni Lleol Clyfar Arloesol*

Yn achos prosiectau sy'n costio rhwng £300,000 a £999,999.99, mae'r llwybr hwn yn cefnogi prosiectau SLES arloesol. Gallai prosiectau cymwys gynnwys SLES i'r gymuned gyfan, gosodiadau SLES ar sawl safle, neu ddatblygiadau ar raddfa fawr ar un safle. Ym mhob achos, rhaid i'r SLES weithredu fel system integredig sengl, gan gydgysylltu trydan, gwres carbon isel a chynnwys technolegau cysylltiedig â thrafnidiaeth, megis gwefru cerbydau trydan fel elfen ychwanegol lle bo hynny'n briodol. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau arloesol mae cynlluniau o'r cerbyd i'r grid (V2G), neu gynlluniau sy'n cynnwys cronni ynni mewn Gorsaf Ynni Rithwir (VPP) neu farchnad ynni leol.

O dan Lwybr 2 rhaid i brosiectau ddangos sut y byddant yn sicrhau'r buddion mwyaf trwy ddefnyddio systemau rheoli clyfar, megis System Rheoli Adnoddau Ynni Gwasgaredig (DERMS), a sut y byddant yn sicrhau arbedion ychwanegol neu refeniw trwy dariffau clyfar, gwasanaethau sy'n cynnig hyblygrwydd, neu drefniadau cyflenwi lleol.

Rhaid i'r prosiectau egluro sut y bydd y gwersi a ddysgir yn sgil y prosiect yn gallu cefnogi defnydd ehangach o SLES yng Nghymru. Dylent esbonio sut y gellid ailadrodd neu addasu dyluniad y system, y model cyflwyno, neu'r dull gweithredu mewn mannau, sectorau neu gymunedau eraill.

Nid ystyrir bod prosiectau sy'n defnyddio gosodiadau SLES cyffredinol ond ar raddfa fwy, heb integreiddio trydan a gwres mewn modd ystyrlon, na systemau nad ydynt yn rhai clyfar, yn addas ar gyfer y llwybr hwn.

## Gwneud Cais

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein briodol ar gyfer y llwybr a ddewiswyd.

Caiff ymgeiswyr gadw eu cais a dod yn ôl ato cyn ei gyflwyno. Os cyflwynir cais trwy gamsyniad, dylai ymgeiswyr gysylltu ag ynnicymru@localpartnerships.gov.uk gyda'u manylion.

## Trosolwg o'r broses ymgeisio a dethol

- Cam 1 – Agor y grant cyfalaf: 26 Mawrth 2026
- Cam 2 – Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: **12pm ar 7 Mai 2026**
- Cam 3 – Bydd y ceisiadau'n cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yn gyflawn, a bod y dogfennau ategol perthnasol ynghlwm.
- Cam 4 – Bydd y ceisiadau sy'n cydymffurfio yn cael eu gwerthuso ar sail gystadleuol yn unol â'r meini prawf sgorio a amlinellir isod.
- Cam 5 – Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Llythyr Gwobr Cynllun Grant Safonol Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r cynnig grant uchaf, cyfnod y wobr, amodau grant, targedau a phroffil talu dangosol.
- Cam 6 – Caiff yr ymgeiswyr aflwyddiannus ofyn am adborth am eu cais. Darperir yr adborth ar ôl cwblhau'r broses asesu a chynnig grant
- Cam 7 – Rhaid hawlio'r grant yn llawn trwy ôl-daliadau erbyn y dyddiad dod i ben a nodir yn Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r broses hawlio briodol a chan gynnwys unrhyw ddogfennau ategol gofynnol a bennwyd. Bydd rheolau hawlio penodol yn cael eu rhannu â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

## Newidiadau i Safle'r Prosiect ar ôl Gwneud Cais

Rhaid i'r ymgeiswyr nodi holl safleoedd y prosiect yn glir wrth wneud y cais.

Fel arfer, ni ddylid newid safleoedd prosiect ar ôl gwneud cais, gan fod y lleoliad yn rhan o'r broses asesu a sgorio.

Caiff ceisiadau i newid safle eu hystyried o dan amgylchiadau eithriadol yn unig a rhaid sicrhau cydsyniad ysgrifenedig Ynni Cymru. Gallai newidiadau heb eu cymeradwyo arwain at dynnu'r cais yn ôl o'r broses.

# Gofynion Mandadol y Cynllun

## Pwy All Wneud Cais

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiynau 2, 3 a 15 ar y ffurflen gais***

Bydd y sefydliadau canlynol, y mae gofyn bod eu pencadlys neu eu canolfan weithredu yng Nghymru, yn gymwys i wneud cais, a gall fod gofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth i brofi hynny:

- ✓ Cyrff Sector Cyhoeddus sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru fel y'u diffinnir o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
    - Awdurdodau lleol
    - Gweinyddiaethau datganoledig y llywodraeth
    - Prifysgolion a cholegau
    - Ysgolion
- ✓ Sefydliadau Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
    - Elusennau cofrestredig
    - Sefydliadau Corfforedig Elusennol
    - Cymdeithasau Budd Cymunedol
    - Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
    - Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol
    - Cwmnïau cyfyngedig trwy warant neu gyfranddaliadau (nad ydynt yn dosbarthu elw)
    - Sefydliadau gwirfoddol sydd wedi'u sefydlu'n gyfreithiol
    - Sefydliadau ffydd sydd â budd cymunedol clir
    - Sefydliadau eraill sy'n rhai nid-er-elw neu'n seiliedig ar genhadaeth
- ✓ Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau[1]) sydd wedi'u sefydlu'n gyfreithiol, ac sy'n cyflogi pobl yng Nghymru
    - Cyfrif pennau staff sy'n is na 250.
    - Trosiant o lai na £44 miliwn a/neu gyfanswm y fantolen sy'n llai na £38 miliwn.

## Ceisiadau ar y Cyd

Caniateir ceisiadau ar y cyd a rhaid iddynt gael eu cyflwyno gan ymgeisydd arweiniol. Bydd unrhyw grant a ddyfernir yn cael ei dalu i'r ymgeisydd arweiniol, a fydd yn gwbl gyfrifol am gyflawni'r prosiect, am gydymffurfio â Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru, ac am reoli'r holl gostau.

Ar gyfer y cynllun hwn, bydd partner yn sefydliad a chanddo rôl weithredol mewn cyflwyno, cyfrannu adnoddau, neu gyfrifoldeb ar y cyd am ddeilliannau (e.e.

---

[1] Mentrau micro, bach a chanolig: diffiniad a chwmpas (europa.eu)

partneriaid sy'n cyd-gyflwyno neu'n berchnogion asedau a rennir). Nid ystyrir bod contractwyr, cyflenwyr, ymgynghorwyr a chyrff sy'n cynghori yn unig yn bartneriaid.

Lle cynigir partneriaethau, efallai y gofynnir i'r ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ohonynt (megis cytundeb partneriaeth neu benawdau'r telerau) fel eglurhad neu fel amod cyn ariannu.

## Yr Ymgeisydd Arweiniol

Mae'r ymgeisydd arweiniol yn gyfrifol am reoli'r broses ymgeisio a chyflwyno'r adroddiadau dilynol. Mae hyn yn cynnwys llofnodi Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru, gwneud hawliadau, a darparu adroddiadau cynnydd. Yr ymgeisydd arweiniol yw'r prif bwynt cyswllt ac sy'n sicrhau bod pob agwedd ar y prosiect yn cyd-fynd â'r gofynion a'r canllawiau ariannu.

## Y Swyddog Awdurdodi

Mae swyddog awdurdodi yn unigolyn sydd â'r awdurdod priodol i gymeradwyo penderfyniadau ariannol ar gyfer y sefydliad. Fel arfer cyflawnir y rôl hon gan gyfarwyddwr ariannol, Prif Swyddog Ariannol, neu swyddog Adran 151 (yn achos awdurdodau lleol). Mae llofnod y swyddog awdurdodi yn cadarnhau bod yr holl rwymedigaethau ariannol yn ddilys, a bod gan y sefydliad y gallu i reoli'r cyllid grant mewn modd priodol.

## Technolegau Cymwys

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 5***

Yn unol ag egwyddorion SLES a'r enghreifftiau yn yr adran egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar (SLES) ac Atodiad 1 – Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES)S, rhaid i brosiectau cymwys fodloni gofynion penodol y llwybrau unigol isod.

## Gofynion y System fesul Llwybr

- **Llwybr 1:** Rhaid i'r prosiectau gynnwys o leiaf un dechnoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac un dechnoleg gwresogi carbon isel. Mae systemau clyfar yn ofynnol i integreiddio a rheoli'r system. Gallai technolegau cymwys sydd eisoes wedi'u gosod gyfri tuag at fodloni'r gofynion hyn.
- **Llwybr 2 –** Rhaid i'r prosiectau gyflwyno SLES sengl, integredig sy'n cyfuno cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwres carbon isel a systemau rheoli clyfar i wneud y gorau o'r perfformiad trydan a gwres. Anogir cyflwyno modelau arloesol (e.e. gwasanaethau sy'n cynnig hyblygrwydd, cynlluniau cyflenwi lleol, ynni o'r cerbyd i'r grid). Mae'n bosibl cyfri technolegau cymwys sydd eisoes yn bodoli os cânt eu hymgorffori'n llawn.

## Technolegau Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Gall technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy gynnwys:

- Treulio anaerobig
- Ynni dŵr

- Ynni Solar Ffotofoltaidd
- Ynni Solar Thermol
- Ynni Gwynt

Bydd prosiectau sy'n cynnwys ynni Solar Ffotofoltaidd a systemau storio ynni batri yn unig yn anghymwys.

### *Ynni Solar Ffotofoltaidd – Rheolau Cymhwystra Ychwanegol (DS Prosiectau BBaChau a'r Sector Cyhoeddus yn Unig)*

Yn achos BBaChau a sefydliadau'r sector cyhoeddus, bydd cynlluniau Solar Ffotofoltaidd ond yn gymwys lle bydd y cyfnod ad-dalu syml yn fwy na 10 mlynedd.

- Os yw'r cyfnod ad-dalu syml yn 10 mlynedd neu'n llai, ni fydd yr elfen Solar Ffotofoltaidd yn gymwys.
- Os yw'r cyfnod ad-dalu syml yn fwy na 10 mlynedd, dim ond y gyfran o'r costau cyfalaf a briodolir i'r cyfnod y tu hwnt i flwyddyn 10 fydd yn gymwys i gael arian grant.
- Mae cymorth grant ar gyfer elfennau Solar Ffotofoltaidd wedi'i gapio ar 40% o gyfanswm costau cyfalaf cymwys yr elfennau hyn.

Rhaid i ymgeiswyr amlygu a phriodoli holl gostau'r elfen Solar yn rhestr gostau'r prosiect er mwyn i'r gyfran gymwys gael ei chyfrifo'n gywir. Gall fod gofyn i gontractwyr ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau yn eu dyfynbrisiau.

Gellir defnyddio'r arian cyfatebol gofynnol (25%) i dalu am unrhyw gostau Solar Ffotofoltaidd anghymwys, gan gynnwys y costau a briodolir i 10 mlynedd gyntaf y cyfnod ad-dalu.

**Enghraifft o Gyfrifiad 1 – Ad-daliad dros fwy na 10 mlynedd**

- Costau cyfalaf cymwys yr elfen Solar Ffotofoltaidd: £100,000
- Cyfnod ad-dalu syml: 12.5 mlynedd

**Cam 1:** Nifer y blynyddoedd y tu hwnt i flwyddyn 10: 12.5 – 10 = 2.5 flynedd

**Cam 2:** Cyfrifo'r gyfran: 2.5 ÷ 12.5 = 20%

**Cam 3:** Cymhwyso'r ganran i gost y prosiect: 20% o £100,000 = £20,000

Uchafswm y grant cymwys = £20,000

(Gan fod hyn o dan y cap o 40%, byddai modd cynnig yr £20,000 llawn.)

**Enghraifft o Gyfrifiad 2 – Cyfnod ad-dalu hirach ond wedi'i gapio ar 40%**

- Costau cyfalaf cymwys yr elfen Solar Ffotofoltaidd: £100,000
- Cyfnod ad-dalu syml: 25 mlynedd

Nifer y blynyddoedd y tu hwnt i flwyddyn 10 = 15

15 ÷ 25 = 60%

60% o £100,000 = £60,000

Fodd bynnag, mae'r cyllid wedi'i gapio ar 40% o gyfanswm costau cyfalaf cymwys yr elfen Solar Ffotofoltaidd
Uchafswm y grant cymwys = £40,000

**Enghraifft o Gyfrifiad 3 – Cost anghymwys**

- Costau cyfalaf cymwys yr elfen Solar Ffotofoltaidd: £100,000
- Cyfnod ad-dalu syml: 9 mlynedd

Gan fod y cyfnod ad-dalu yn llai na 10 mlynedd, nid yw'r prosiect yn gymwys i gael cyllid o'r grant Solar Ffotofoltaidd.

## Gwresogi, Oeri a Dŵr Poeth Carbon Isel

Mae technolegau cymwys yn cynnwys:

- Pympiau gwres (unrhyw fath)
    - pympiau gwres o'r aer
    - pympiau gwres o'r ddaear
    - pympiau gwres o ddŵr
- Systemau solar thermol ar gyfer dŵr poeth neu wresogi gofod
- Rhwydweithiau gwres lle cyflenwir gwres carbon isel (er enghraifft, gwres a gyflenwir gan bympiau gwres, systemau adennill gwres gwastraff, neu ffynonellau adnewyddadwy)
- Systemau gwresogi biomas, megis boeleri peledi coed, lle y maent wedi'u hymgorffori mewn SLES ehangach ac yn amlygu budd datgarboneiddio clir.

Yn achos systemau gwresogi biomas, rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu:

- asesiad carbon cylch bywyd llawn sy'n cwmpasu'r gadwyn cyflenwi biomas, gan gynnwys y gwaith cynaeafu, prosesu, cludiant, a hylosgi;
- cyfrifiadau sy'n amlygu'r allyriadau a wrthbwysir trwy aildyfiant;
- manylion ffynhonnell y biomas, gan ffafrio cyflenwad gan ffynonellau lleol oherwydd yr allyriadau cysylltiedig is.

O ystyried bod gronynnau'n cael eu rhyddhau yn ystod y broses hylosgi, rhaid i ymgeiswyr hefyd ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth gan awdurdodau cynllunio a rheoli adeiladu lleol.

## Seilwaith Cludiant Allyriadau Isel Iawn

Seilwaith Gwefru Cerbydau trydan ar gyfer cerbydau trydan batri a ymgorfforir mewn System Ynni Lleol Clyfar.

### *Nodiadau ynghylch Gwefru Cerbydau Trydan (lle bo hynny'n berthnasol)*

Lle bydd prosiectau'n cynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd eu prisiau yn deg ac yn dryloyw, gan gynnwys:

- strwythurau prisio clir a hygyrch;

- camau i atal ffioedd gormodol;
- cydweddiad â phrif gyfraddau'r farchnad.

Yn ogystal, dylai ymgeiswyr esbonio sut y mae gwefru cerbydau trydan yn cynnig buddion ehangach, megis gwella hygyrchedd, fforddiadwyedd, neu wydnwch ynni lleol.

## Technolegau Storio Ynni

- Systemau storio ynni batri
- Storio thermol
- Gwresogyddion storio

## Systemau Ynni Clyfar

- Systemau Rheoli Adeiladau (BMS)
- Systemau rheoli a monitro grid clyfar (megis DERMS)
- Systemau rheoli ynni a mesuryddion clyfar
- Efallai y bydd defnydd arloesol o oleuadau sy'n dangos egwyddorion SLES yn gymwys; argymhellir eich bod yn trafod â thîm Ynni Cymru cyn cyflwyno cais

## Technolegau Gwresogi Carbon Isel Anghymwys

Nid yw'r canlynol yn gymwys:

- Boeleri nwy (gan gynnwys systemau gwres a phŵer cyfunedig nwy a systemau gwresogi nwy)
- Systemau gwresogi sy'n defnyddio olew, LPG neu lo
- Systemau hybrid lle mae tanwydd ffosil yn brif ffynhonnell wres o hyd
- Ni fydd systemau gwresogi trydan uniongyrchol (megis gwresogyddion panel neu foeleri trydan) yn gymwys fel arfer am nad ydynt yn cynrychioli arfer gorau o ran gwresogi carbon isel. Dim ond pan all ymgeiswyr ddangos yn ddygn eu bod yn unig ddewis ymarferol y cânt eu hystyried
- Gosodiadau gwresogi annibynnol sydd heb eu hymgorffori mewn SLES ehangach

## Cymhwystra - Cydsyniad, Caniatâd, a Pharodrwydd y Safle

***Mae'r adran hon yn cefnogi Cwestiynau 6 – 12.***

I gyflwyno System Ynni Lleol Clyfar (SLES) gall fod gofyn sicrhau ystod o gydsyniadau statudol, trydydd parti, a thechnegol, yn dibynnu ar natur a lleoliad y gwaith arfaethedig. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod pob cydsyniad angenrheidiol wedi'i roi neu'n gallu cael ei roi yn unol ag amserlen y prosiect.

## Gofynion Parodrwydd y Llwybrau (Yn Berthnasol i Bob Cydsyniad a Nodir Isod)

**Llwybr 1** rhaid i brosiectau gadarnhau bod pob cydsyniad gofynnol naill ai wedi'i sicrhau neu fod modd rhesymol ei sicrhau o fewn amserlen y prosiect, ac adlewyrchu hynny mewn modd priodol yn yr amserlen gyflwyno arfaethedig.

**Llwybr 2** – disgwylir i brosiectau ddangos lefel uchel o barodrwydd. Lle bydd hynny'n ofynnol, rhaid i'r ymgeiswyr ddangos bod prosesau ffurfiol (megis cyflwyno ceisiadau neu ofyn am gydsyniad) wedi dechrau neu ddarparu tystiolaeth gref a lefel uchel o hyder y gellir sicrhau pob cydsyniad angenrheidiol o fewn yr amserlen arfaethedig. Rhaid lanlwytho tystiolaeth ategol yn rhan o'r cais.

## Caniatâd Cynllunio

Efallai y bydd gofyn cael caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu gadarnhad datblygu a ganiateir, yn dibynnu ar raddfa, lleoliad, a natur y gwaith arfaethedig. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw cael gwybod a fydd cydsyniad cynllunio yn ofynnol, a chysylltu'n gynnar â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol. Gellid ystyried bod prosiectau sy'n dibynnu ar sicrhau cydsyniad cynllunio yn hwyr yn y rhaglen gyflawni, neu brosiectau sydd heb asesu'r risgiau cynllunio yn ddigonol, yn rhai uchel eu risg a allai sgorio'n isel o ran y tebygolrwydd y cânt eu cyflawni.

Darperir canllawiau pellach yn Atodiad 3 – Caniatâd Cynllunio.

## Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO)

Mae Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) yn berchen ar y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol ac yn gyfrifol am ei weithredu a'i gynnal. Rhaid i brosiectau sy'n cynhyrchu, yn storio neu'n allgludo trydan sicrhau bod gofynion cysylltu â'r grid wedi'u deall ac yn cael eu rheoli.

Yng Nghymru, mae rhwydweithiau trydan yn cael eu gweithredu gan SP Energy Networks (SPEN) a National Grid Electricity Distribution (NGED). Darperir gwybodaeth bellach yn Atodiad 2 – Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO).

Gall y dystiolaeth ategol gynnwys gohebiaeth â'r DNO, cadarnhad nad oes gofyn uwchraddio'r rhwydwaith, neu fanylion ceisiadau a gyflwynwyd neu a gymeradwywyd sy'n cwmpasu'r technolegau perthnasol ar gyfer cynhyrchu a storio ynni.

## Cydsyniad y Landlord

Os caiff prosiect SLES ei osod ar dir neu adeiladau nad ydynt yn eiddo i sefydliad yr ymgeisydd arweiniol, bydd cydsyniad ysgrifenedig landlord, rhydd-ddeiliad neu berchennog yr eiddo perthnasol yn ofynnol.

Gall y dystiolaeth ategol gynnwys cydsyniad ysgrifenedig, llythyrau neu negeseuon yn gofyn am gydsyniad, penawdau'r telerau, neu ddogfennau eraill sy'n dangos bod ymgysylltu gweithredol â'r partïon perthnasol.

Os yw'r holl dir a'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn eiddo i'r sefydliad ymgeisio, ni fydd angen darparu cydsyniad landlord.

## Cydsyniad Darparwr y Morgais

Lle y mae'r tir neu'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r prosiect o dan forgais neu fenthyciad arall wedi'i warantu, gall fod gofyn sicrhau cydsyniad y benthyciwr/benthycwyr perthnasol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

Gall y dystiolaeth ategol gynnwys cadarnhad ysgrifenedig gan ddarparwyr y morgais, llythyr neu neges yn gofyn am gydsyniad, neu ddogfennau eraill sy'n dangos yr ymgysylltu a fu rhwng yr ymgeisydd â'r partïon perthnasol.

Os nad oes morgais neu fenthyciad wedi'i warantu yn gysylltiedig â'r asedau dan sylw, ni fydd angen darparu cydsyniad darparwr morgais.

## Yswiriant Adeiladau

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau na fydd gosod y SLES arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar yswiriant presennol yr adeilad nac yn ei wneud yn annilys. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau y bydd yr adeilad a'r offer newydd a osodir arno wedi'u hyswirio'n ddigonol yn dilyn y gwaith gosod.

Gall tystiolaeth ategol gynnwys gohebiaeth â'r cwmni yswiriant, cadarnhad ysgrifenedig o'r yswiriant, neu gadarnhad y bydd y polisïau yswiriant yn cael eu newid i gwmpasu'r offer arfaethedig dechrau'r prosiect.

## Prydles/Perchnogaeth Adeilad

Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod naill ai'n berchen ar y tir neu'r adeiladau y bwriedir gosod y SLES arnynt, yn meddu ar brydles (am o leiaf dair blynedd) neu fod yr hawl a'r caniatâd angenrheidiol ganddynt i gael mynediad i'r safle a gwneud y gwaith arfaethedig arnynt.

Dylai ceisiwyr nodi bod yn rhaid cadw asedau a gyllidir mewn cyflwr da a'u cadw gan y ceisydd am Gyfnod Llawn Perchennog Asedau a Gyllidir, fel a nodir yn Llythyr Gwobr Grant Safonol Llywodraeth Cymru (ar hyn o bryd 10 mlynedd). Gall gwaredu'r safle, newidiadau mewn perchennogaeth busnes, neu geseid neu symud y busnes yn ystod y cyfnod hwn arwain at ofyn i'r grant gael ei ad-dalu.

## Arolygon Strwythurol

Yn dibynnu ar natur y SLES arfaethedig, efallai y bydd gofyn cynnal arolygon strwythurol i gadarnhau dichonoldeb, diogelwch a chydymffurfiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i brosiectau sy'n ymwneud â gosod paneli Solar Ffotofoltaidd ar doeon neu fathau eraill o dechnoleg sy'n ychwanegu at y llwyth strwythurol.

Gall y dystiolaeth ategol gynnwys adroddiadau arolygon strwythurol, dyluniadau technegol, darluniau o'r cynllun, neu ohebiaeth â gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas, megis gosodwr sydd wedi'i achredu gan MCS, peiriannydd strwythurol neu arolygwr adeiladau.

Darperir canllawiau pellach yn Atodiad 4 – Asesiadau ac Arolygon

## Isafswm Gofyniad Cyllid Cyfatebol

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 13***

Rhaid i bob cais gynnwys lefel benodedig o arian cyfatebol, fel yr amlinellir yn tabl 1 isod:

*Tabl 1 Arian Cyfatebol*

| Sefydliad | Yr Arian Cyfatebol Sylfaenol sy'n Ofynnol |
|---|---|
| **Sector cyhoeddus** | 25% |
| **BBaChau** | 25% |
| **Sefydliadau Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol** | 0% |

Rhaid darparu cyllid cyfatebol fel cyfraniad ariannol. Nid yw buddion mewn natur (fel llafur, nwyddau, neu wasanaethau a roddir yn rhodd) yn gymwys.

Disgwylir i ymgeiswyr chwilio am bob cymorth ariannol neu gyllid grant priodol arall a'u sicrhau cyn cyflwyno cais i Ynni Cymru. Darperir gwybodaeth bellach am ffynonellau cyllid posibl yn Atodiad 5 – Cynlluniau Cyllid Eraill

Ni ellir defnyddio grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru fel arian cyfatebol, ond mae modd defnyddio benthyciadau Llywodraeth Cymru i'r diben hwnnw. Rhaid dyrannu arian cyfatebol i gostau cymwys sy'n cefnogi gosodiad neu swyddogaeth CLES yn uniongyrchol gyda phrosiectau yn cael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2027.

Yn achos cwmnïau cyfyngedig, unig fasnachwyr, a phartneriaethau (sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf ddwy flynedd) yn benodol, gellir defnyddio Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd (GBLS) Banc Datblygu Cymru fel arian cyfatebol. Mae'r GBLS wedi'i gynllunio i gynnig pecyn cymorth i alluogi busnesau Cymru i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni a chefnogi busnesau ar eu taith i sero net. Darperir rhagor o wybodaeth am y GBLS yn Atodiad 5 – Cynlluniau Cyllid Eraill .

Yn benodol ar gyfer cyrff sector cyhoeddus, bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn gallu trafod a chynghori ar sut y gellir cyrchu ffynonellau cyllid presennol.

# Meini Prawf Asesu

## Cyfatebiaeth i egwyddorion System Ynni Lleol Clyfar (SLES)

***Mae hyn yn cefnogi Adran 7, Cwestiwn 33***

I fod yn gymwys, rhaid i brosiectau fod yn gynlluniau System Ynni Lleol Clyfar (SLES) sy'n defnyddio sawl technoleg. Ni fydd cynlluniau technoleg sengl neu osodiadau annibynnol yn gymwys.

### Clyfar

Rhaid i'r prosiectau ddefnyddio data a rheolyddion i sicrhau bod ynni yn cael ei ddefnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, yn y man iawn ac ar yr adeg iawn (e.e. trwy systemau rheoli a meddalwedd ar gyfer monitro, awtomatiaeth, deallusrwydd artiffisial, cyfnewid ynni a/neu dariffau clyfar).

Yn eu hymateb, rhaid i ymgeiswyr egluro sut y mae eu prosiect yn gwneud y gorau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy, er enghraifft trwy ddefnyddio cymaint o'r ynni â phosibl ar y safle, cwtogi llai, cyfateb llwythi yn well, defnyddio tariffau clyfar neu drefniadau masnachu, neu alluogi gweithredu hyblyg ar draws y system.

### Lleol

Rhaid i brosiectau fod mewn perchnogaeth leol[2] a dangos trefniadau clir ar gyfer llywodraethu neu reoli lleol. Rhaid i ymgeiswyr esbonio sut y mae perchnogaeth y prosiect, a'i strwythurau gwneud penderfyniadau a rhannu buddion yn sicrhau bod gwerth yn cael ei gadw mewn cymunedau yng Nghymru.

Dylai prosiectau gydnabod bod anghenion gwahanol yn bodoli mewn gwahanol fannau a chymunedau yng Nghymru. Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut y mae eu cynnig yn ymateb i'r cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol.

Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr egluro sut y mae eu prosiect yn cyfrannu at ehangu'r ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yng Nghymru.

### System Ynni

Rhaid i brosiectau ddefnyddio sawl math o dechnoleg (e.e. cyfuniad o gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol i hwyluso defnydd o bŵer adnewyddadwy, systemau gwresogi, oeri, a dŵr poeth carbon isel, cludiant allyriadau isel iawn, lleihau'r galw, technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'u lleoli ar y cyd, y defnydd gorau posibl o gapasiti'r grid, a storio ynni).

---

[2] Canllawiau i ddatblygwyr, cymunedau lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. (llyw.cymru)

Bydd ceisiadau cryf yn egluro sut y mae'r elfennau hyn yn rhyngweithio i ffurfio system ynni sengl, seiliedig ar le, yn hytrach na chasgliad o asedau heb gysylltiad rhyngddynt.

### *Anheddau a Chartrefi mewn Prosiectau SLES*

Dim ond pan fydd cartrefi yn rhan o SLES ehangach, seiliedig ar le, sy'n cyflwyno system neu fudd cymunedol clir (e.e. cydgasglu Gorsaf Ynni Rithwir, cyflenwad lleol, rhannu seilwaith neu wasanaethau hyblygrwydd) y gellir defnyddio'r arian i gefnogi annedd.

Ni fyddwn yn ariannu SLES sydd wedi'i gyfyngu i un cartref na phrosiectau sy'n cynnig budd i un aelwyd unigol yn bennaf.

Rhaid i ymgeiswyr esbonio:

- sut y mae asedau domestig yn cael eu hymgorffori mewn SLES ehangach;
- sut y rhennir buddion ar draws yr aelwydydd sy'n rhan o'r prosiect neu'r gymuned ehangach;
- sut y mae'r prosiect yn cyfrannu at ddeilliannau ar lefel system, megis gwella gwydnwch ynni, hyblygrwydd, fforddiadwyedd, neu wneud y gorau o'r rhwydwaith.

Anogir prosiectau sy'n fodd i gydgasglu, cydgysylltu neu rannu defnydd o asedau ynni domestig, lle bydd y dulliau gweithredu hyn yn cefnogi amcanion ynni lleol ac yn cynnig gwerth cyhoeddus y tu hwnt i gartrefi unigol.

### *Cyfranogiad, gweithrediad, a hyd y prosiect*

Disgrifiwch y disgwyliadau o ran cyfranogiad (e.e. cyfnod cyfranogi sylfaenol, gofynion rheoli a rhannu data, a sut y bwriedir rheoli'r broses ymadael). Rhaid sicrhau bod asedau domestig yn dal i allu cysylltu'n weithredol â'r SLES (e.e. Gorsaf Ynni Rithwir neu gynllun cyfatebol) am gyfnod sy'n cyd-fynd ag amcanion ac amodau cyllido'r rhaglen.

### *Perchnogaeth, data, a monitro*

Rhaid i ymgeiswyr roi disgrifiad clir o'r canlynol:

- perchnogaeth a threfniadau rheoli ar gyfer asedau domestig ar hyd cyfnod perchnogi'r asedau a ariennir;
- sut y bydd data o'r asedau domestig yn cael eu rhannu, eu llywodraethu a'u defnyddio i gefnogi'r gwaith o weithredu, monitro a gwerthuso'r system;
- y trefniadau ar gyfer monitro buddion, casglu tystiolaeth a rhoi adroddiadau dros amser, sy'n ymestyn y tu hwnt i unrhyw gyfnod treialu neu arddangos cychwynnol.

## Y tebygolrwydd o gyflawni'r prosiect

***Mae hyn yn cefnogi Adran 8***

Mae'r adran hon yn asesu a oes modd cyflawni'r prosiect erbyn 31 March 2027, ac yn dangos cynllunio credadwy, adnoddau, llywodraethu a rheoli risgiau.

## Amserlenni a Cherrig Milltir y Prosiect

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 34***

Rhaid i ymgeiswyr lanlwytho amserlen fanwl a chredadwy ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio Templed Amserlen Prosiectau Ynni Cymru. Ni dderbynnir fformatau amgen.

Rhaid i'r amserlen amlygu:

- camau allweddol y prosiect o ddyfarnu'r grant i gwblhau'r prosiect;
- y cerrig milltir arfaethedig, gan gynnwys caffael, gosod, comisiynu a throsglwyddo;

Rhaid i'r cerrig milltir fod yn realistig, yn gymesur ac yn gyraeddadwy. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr amserlen yn adlewyrchu statws cyfredol y prosiect, gan gynnwys pob cydsyniad, gwaith caffael neu ddylunio a gyflawnwyd eisoes.

Yn ogystal â chwblhau a chyflwyno amserlen y prosiect, rhaid i ymgeiswyr **Llwybr 2** ddarparu disgrifiad ategol o'u hamserlen gyflawni arfaethedig.

Rhaid i'r disgrifiad hwn roi sylw i'r canlynol:

- Manylion ystyriaethau cynllunio, ynghyd â chysylltiad a hyder o ran yr awdurdod cynllunio
- Gofynion y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu a'r cyswllt â nhw
- Hyder yn yr amserlen ar gyfer caffael contractwyr a deunyddiau.
- Manylion y broses gyflwyno – yn cynnwys naratif ar resymeg ac amserlen y gweithgareddau
- Y modd y gwneir cyfrif am y risgiau allweddol yn y broses gynllunio

## Adnoddau a Phrofiad

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 35***

Rhaid i bob ymgeisydd ddisgrifio'r adnoddau a'r profiad cyflenwi, gan gynnwys y rolau allweddol a'u profiad perthnasol, a chadarnhau bod yr adnoddau ganddynt i gyflawni'r gwaith.

Rhaid i hyn gynnwys:

- manylion y personél allweddol a fydd yn cyflawni'r prosiect, a'u rolau;
- profiad perthnasol o gyflawni prosiectau tebyg;
- cadarnhad bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i reoli'r prosiect ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill.

Ar ben y gofynion uchod, rhaid i ymgeiswyr **Llwybr 2** ddisgrifio profiad y tîm o reoli contractau, sut y gwneir penderfyniadau cyflawni, gan gynnwys pwy fydd ag awdurdod i gymeradwyo newidiadau i gwmpas, cyllideb neu amserlen y prosiect, a'r trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio a datrys problemau ac anghydfodau.

## Risgiau o ran y Gallu i Gyflawni'r Prosiect a Chamau Lliniaru

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 36***

Rhaid i ymgeiswyr amlygu'r tair risg bwysicaf o safbwynt cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus ac esbonio sut y cânt eu rheoli a'u lliniaru.

Gallai'r risgiau ymwneud â'r canlynol, er enghraifft:

- caffael a chadwyni cyflenwi;
- oedi yn y broses gynllunio neu gydsyniad;
- cysylltu â'r grid neu gymhlethdodau technegol;
- argaeledd adnoddau neu gontractwyr;
- dibyniadau'r prosiect neu ffactorau allanol.

Rhaid i ymatebion ganolbwyntio ar risgiau perthnasol a chynnig camau lliniaru realistig a chymesur. Gallai datganiadau risg cyffredinol neu ddisylwedd dderbyn sgôr isel.

Ar ben y gofynion uchod, rhaid i ymgeiswyr **Llwybr 2** hefyd gyflwyno Templed Cofrestr Risgiau Ynni Cymru. Os na ddaw'r gofrestr risgiau i law, bydd y cais yn cael ei ystyried yn anghymwys.

## Gweithredu a Chynnal a Chadw ar ôl Cwblhau'r Prosiect

***Mae hyn yn cefnogi Cwestiwn 37 ar ffurflen gais Llwybr 2***

Rhaid i ymgeiswyr **Llwybr 2** esbonio sut y bydd y prosiect yn gweithredu ac yn cael ei gynnal a'i gadw ar ôl cwblhau'r gwaith, gan gynnwys:

- pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith gweithredu a chynnal a chadw parhaus;
- sut y bydd perfformiad y system yn cael ei fonitro;
- sut y bydd tanberfformiad neu ddiffygion yn cael eu hamlygu ac yn derbyn sylw.

Yn yr ymatebion rhaid dangos bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau y bydd yr asedau a ariennir yn dal i weithio'n effeithiol a chyflawni'r buddion a fwriadwyd ar hyd cyfnod perchnogi'r asedau a ariennir, a fydd yn para 10 mlynedd yn ôl Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru.

Bydd ymgeiswyr yn gyfrifol am yr holl waith gweithredu, cynnal a chadw, atgyweirio, yswiriant, amnewid a'r costau cylch bywyd sy'n gysylltiedig â'r asedau a ariennir. Ni fydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu arian ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, uwchraddio, neu gyfnewid offer yn y dyfodol.

## Buddion

***Mae hyn yn cefnogi Adran 9 (Cwestiwn 37 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 38 o dan Lwybr 2)***

Rhaid nodi buddion clir sy'n ymestyn y tu hwnt i'r sefydliad ymgeisio. Lle bo modd, dylid meintioli'r llinell sylfaen a'r effeithiau ôl-brosiect (ynni, carbon, costau, hyblygrwydd, refeniw). Mae amcangyfrifon yn dderbyniol ar adeg cyflwyno'r cais, ond rhaid rhoi esboniad o dybiaethau a hyder.

Dylai ymgeiswyr ddangos sut y mae'r prosiect yn cyfrannu at bontio teg i sero net, gan sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl wrth i Gymru symud i system ynni glanach a thecach.

Gall Llywodraeth Cymru ailymweld â phrosiectau a gyllidwyd wedi iddynt gael eu cwblhau i wirio a gwerthuso'r buddion a ddisgrifiwyd yn y cais. Gan hynny, dylai ymgeiswyr sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i fonitro, casglu data a darparu adroddiadau, yn dystiolaeth o gyflawni'r deilliannau a hawliwyd.

## Buddion Cymdeithasol Ehangach

Rhaid i ymgeiswyr esbonio sut y mae eu prosiect yn cyflawni gwerth cymdeithasol ehangach ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i gymunedau y tu hwnt i'r sefydliad ymgeisio.

Lle bo'n berthnasol, rhaid i ymatebion ystyried y canlynol:

- Pwy yw'r prif fuddiolwyr, gan gynnwys unrhyw grwpiau agored i niwed neu grwpiau â blaenoriaeth (er enghraifft aelwydydd incwm isel, pobl hŷn neu fregus eu hiechyd).
- Sut y cafodd cymunedau lleol neu fuddiolwyr eu cynnwys wrth lywio'r prosiect, gan gynnwys ymgynghori, cyd-ddylunio neu drefniadau llywodraethu.
- Nifer yr aelwydydd neu'r buddiolwyr cymunedol y disgwylir iddynt elwa o'r cynllun, gan gynnwys unrhyw arbedion o ran costau ynni neu fynediad gwell at ynni fforddiadwy.
- Partneriaethau neu gysylltiad â grwpiau cymunedol lleol, awdurdodau lleol, darparwyr tai, neu sefydliadau'r trydydd sector.
- Unrhyw drefniadau ail-fuddsoddi lleol neu fudd cymunedol, megis ail-fuddsoddi arbedion ariannol, cronfeydd cymunedol, credydau ynni lleol, asedau a rennir neu fodelau perchnogaeth gymunedol.
- Buddiannau sy'n targedu'r cymunedau sy'n fwyaf agored i niwed wrth bontio i sero net.
- Cadw buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng nghymunedau Cymru.
- Cefnogi dulliau datgarboneiddio cynhwysol, seiliedig ar leoedd.

*Nodyn ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig*

Rhaid i geisiadau gan BBaChau ddangos buddion amlwg sy'n ymestyn y tu hwnt i elw masnachol preifat. Mae'n annhebygol y bydd prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf ag arbed costau neu gynhyrchu refeniw i'r ymgeisydd yn sgorio'n dda.

Yn eu cais, rhaid i BBaChau ddangos yn glir na fyddai modd i'r prosiect, neu i elfennau budd cymunedol estynedig y prosiect, symud ymlaen heb arian cyhoeddus (neu ddangos y byddai'r cwmpas neu'r effaith yn llawer llai).

Ar ben y gofynion uchod, rhaid i geisiadau gan BBaChau wneud y canlynol:

- Cyflawni buddion cymunedol ac economaidd lleol cadarn.
- Cynnwys dull clir o rannu gwerth yn lleol (er enghraifft cronfeydd budd cymunedol, trefniadau rhannu refeniw, tariffau gostyngol, mynediad at seilwaith a rennir, neu ailfuddsoddi strwythuredig).
- Darparu tystiolaeth o effeithiau ehangach, megis costau ynni is i eraill, gwell gwydnwch, lleihau allyriadau, creu swyddi lleol, datblygu sgiliau, neu helpu grwpiau agored i niwed.

Rhaid i arian cyhoeddus alluogi deilliannau na fyddai modd eu cyflawni trwy fuddsoddiad preifat yn unig.

## Buddion Economaidd

Rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio'r buddion economaidd y mae'r prosiect yn ei gynnig i'r sefydliad ymgeisio ac i'r economi leol neu ranbarthol ehangach.

Lle bo'n berthnasol, rhaid i ymatebion ystyried:

- Arbedion ar gostau ynni neu osgoi costau, gan gynnwys biliau ynni is, gwell sicrwydd o ran prisiau, neu fod yn llai agored i farchnadoedd ynni anwadal.
- Cyfleoedd refeniw, megis incwm o wasanaethau hyblygrwydd, tariffau clyfar, neu drefniadau cyflenwi lleol.
- Creu swyddi, prentisiaethau, neu ddatblygu sgiliau, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gadwyni cyflenwi lleol.
- Effeithiau economaidd lleol, gan gynnwys defnyddio contractwyr, cyflenwyr, neu ddarparwyr gwasanaethau lleol.
- Sut y mae'r prosiect yn cefnogi gwydnwch economaidd hirdymor, er enghraifft trwy gadw gwariant ar ynni yn yr economi leol.

## Buddion Amgylcheddol

Rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio buddion amgylcheddol y SLES arfaethedig, gyda sylw penodol ar leihau carbon a deilliannau ynni adnewyddadwy.

Lle bo'n berthnasol, rhaid i'r ymatebion ystyried y canlynol:

- Arbedion carbon, gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o gymharu â defnydd ynni sylfaenol.

- Cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chyfran yr ynni a gynhyrchir ac a ddefnyddir yn lleol.
- Gwell ansawdd aer neu lai o gysylltiad â llygryddion.
- Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil wedi'i fewnforio, gwella diogeled ynni a hunangynhaliaeth.
- Unrhyw fuddion amgylcheddol ychwanegol, megis gwella bioamrywiaeth, adfer tir neu leihau llygredd sŵn.

# Manylion Costau a Chaffael y Prosiect

## Costau Cymwys

***Mae hyn yn cefnogi Adran 10 (Cwestiwn 38 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 39 o dan Lwybr 2)***

Costau cymwys yw'r rhai sy'n uniongyrchol angenrheidiol er mwyn cyflwyno, gosod, a chomisiynu'r System Ynni Lleol Clyfar (SLES) a ariennir.

Rhaid i'r holl gostau adlewyrchu gwerth da am arian, wedi'i gefnogi, lle bo'n briodol, gan ymarfer profi'r farchnad neu ddyfynbrisiau ysgrifenedig cystadleuol.

### *Gwaith Galluogi*

Gall gwaith galluogi y bernir ei fod yn angenrheidiol er mwyn gosod y SLES fod yn gymwys.

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- mân waith adeileddol sy'n ofynnol er mwyn gosod y SLES;
- gwaith angenrheidiol i gysylltu systemau;
- mesurau angenrheidiol i sicrhau gweithrediad diogel.

Ni fydd gwaith adeiladu nad yw'n hanfodol ar gyfer y SLES, megis ailwifro adeilad cyfan neu welliannau ehangach i'r adeilad yn gymwys.

Yn rhan o'r asesiad, bydd Ynni Cymru yn adolygu'r dadansoddiad o'r costau a'u cymesuredd. Os bydd y gwaith galluogi yn gyfran fawr o gyfanswm y costau, gellid barnu bod y prosiect yn cynnig gwerth gwael am arian a rhoi sgôr isel iddo.

### Inswleiddio neu Adnewyddu

Nid yw gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni (megis inswleiddio) yn gymwys oni bai:

- eu bod yn rhan hanfodol o osod y dechnoleg a ariennir neu ei weithrediad effeithiol;
- bod cyfiawnhad clir drostynt (er enghraifft bod angen inswleiddio er mwyn sicrhau bod pwmp gwres yn gweithredu'n effeithlon).

Nid yw gwaith ailwampio neu adnewyddu ehangach yn gymwys i dderbyn arian a gallent effeithio'n negyddol ar yr asesiad gwerth am arian.

### Amser Staff

Dim ond lle byddant yn uniongyrchol angenrheidiol i gyflawni'r prosiect a'u bod yn cynnig gwerth da am arian y gellir cynnwys amser staff yn y costau cymwys. Rhaid i gostau staff fod yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol sy'n rhan o'r prosiect a dylent fod yn briodol i faint a chymhlethdod y prosiect. Ni fydd costau staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r SLES yn gymwys.

Rhaid seilio costau'r staff ar union gost y gyflogaeth. Ni chaniateir cyfraddau masnachol, cyfraddau hollgynhwysol (*charge out*), neu faint yr elw.

Gall costau staff cymwys gynnwys:

- cyflog gros;
- cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr;
- cyfraniadau pensiwn y cyflogwr;
- cyfraniad at gostau anuniongyrchol (gorbenion).

Gorbenion

- Mae gorbenion wedi eu capio ar 15% o'r union gostau cyflogaeth.
- Ni fydd hawliad gorbenion uwchlaw 15% yn gymwys.

Dylai tâl yr awr gael ei gyfrifo fel a ganlyn:

***(Cyflog gros + Yswiriant Gwladol y cyflogwr + pensiwn y cyflogwr + hyd at 15% o orbenion) ÷ oriau cynhyrchiol y flwyddyn***

Wrth hawlio cyfraddau fesul awr, rhaid i ymgeiswyr gadarnhau eu bod:

- yn adlewyrchu union gostau'r gyflogaeth yn unig;
- heb gynnwys elw, ychwanegiadau na gorswm masnachol.

Gall Ynni Cymru ofyn am dystiolaeth o gostau staff yn ystod y cam egluro neu cyn hawlio'r grant am y tro cyntaf. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- cofnodion cyflogres;
- gadarnhad ysgrifenedig gan uwch-swyddog neu gyfarwyddwr fod y cyfraddau wedi'u seilio ar yr union gostau.

Mae Ynni Cymru yn cadw'r hawl i adolygu cyfrifiadau'r costau staff a lleihau neu wrthod costau gormodol, sydd heb eu cefnogi neu nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r prosiect.

## Costau anghymwys

***Mae hyn yn cefnogi Adran 10 (Cwestiwn 38 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 39 o dan Lwybr 2)***

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gostau na fyddant yn cael eu hystyried yn gymwys i gael cymorth:

- Gwaith adeiladu cyffredinol nad yw'n hanfodol ar gyfer y SLES (e.e. ailwifro adeilad cyfan neu welliannau ehangach i'r adeiladwaith.
- System dechnoleg sengl.
- System Solar Ffotofoltaidd a System Storio Ynni Batri (BESS) yn unig.
- System Solar Ffotofoltaidd â llai na 10 mlynedd o gyfnod ad-dalu ar gyfer BBaCHau a'r sector cyhoeddus.
- Ôl-osod goleuadau LED safonol neu gyfnewid goleuadau am rai tebyg neu waith uwchraddio effeithlonrwydd sylfaenol.
- Costau refeniw mewnol, megis y rhai sy'n ymwneud â chyflogau staff ar gyfer gweithredu/cynnal a chadw'r SLES.

- Mesurau nad ydynt yn arwain at arbedion carbon nac yn eu cefnogi, er enghraifft:
  - Unrhyw gyfarpar gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil sylfaenol, e.e. boeleri nwy, gwres a phŵer cyfunedig (CHP) nwy
  - Amnewid system gwres carbon isel bresennol sy'n dal i fod o fewn ei hoes weithredu ddefnyddiol.
- Aerdymheru a ddefnyddir ar gyfer oeri yn unig.
- Costau sy’n ymwneud â'r gwaith ehangach o adnewyddu adeiladau, megis ailwampio a gwaith sylweddol i'r adeiladwaith.
- Gwaith ôl-weithredol, sydd eisoes wedi'i ddechrau neu wedi'i gwblhau cyn i Lythyr Cynnig Grant Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi.
- Gwelliannau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- Gwaith o ran dichonoldeb neu'r cysyniad.
- Costau'n ymwneud â'r swyddfa, gan gynnwys rhent, cyfleustodau, cyfarpar swyddfa.
- Costau teithio neu gynhaliaeth.
- TAW adferadwy – bydd angen i ymgeiswyr reoli'r agwedd hon ar lif arian mewn modd priodol lle telir TAW mewn un flwyddyn ariannol ond caiff ei adfer y flwyddyn wedyn.
- Rhaid i’r sefydliad ymgeisio reoli’r taliadau cadw sy’n daladwy ym mlwyddyn ariannol 2027-28 neu y tu hwnt i hynny
- Costau wrth gefn, gan fod rhaid i’r ymgeisydd reoli unrhyw orwariant ychwanegol.
- Costau sy'n gysylltiedig â llunio'r cais am grant (p'un a yw'n gost fewnol neu'n gost allanol).
- Costau gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a chostau yr aed iddynt cyn y dyfarniad grant llwyddiannus.
- Inswleiddio Waliau Allanol: oherwydd y costau uchel ymlaen llaw, caiff ei drin fel gwaith uwchraddio sylweddol i'r adeiladwaith ac fe'i hystyrir yn waith adnewyddu. Nid yw gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni (megis inswleiddio) yn gymwys oni bai eu bod yn rhan hanfodol ac annatod o osod technoleg SLES.
- Costau prydlesu yn y dyfodol neu drefniadau prydles ariannol sy’n ymwneud â’r asedau a ariennir.
- Ffioedd trwyddedu, tanysgrifiadau neu newidiadau parhaus i feddalwedd y tu hwnt i’r cyfnod gosod a chomisiynu a ariennir.
- Costau gweithredu a chynnal a chadw parhaus, gan gynnwys cytundebau gwasanaeth amlflwyddyn neu daliadau cynnal a chadw wedi eu cyfalafu a delir ymlaen llaw.

## Amnewid Cyfarpar Presennol

***Mae hyn yn cefnogi Adran 10 (Cwestiwn 38 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 39 o dan Lwybr 2)***

Gellir defnyddio’r arian i amnewid cyfarpar sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol yn unig. Ni fydd amnewid cyfarpar sy’n dal i weithio neu y mae modd ei adnewyddu yn gost cymwys. Gall fod gofyn cyflwyno tystiolaeth.

## Y Dull Caffael

***Mae hyn yn cefnogi Adran 10 (Cwestiwn 39 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 40 o dan Lwybr 2)***

Wrth ddefnyddio cyllid grant i brynu gwaith, nwyddau neu wasanaethau, mae telerau'r grant yn nodi y dylid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae'r dull caffael a amlinellir isod yn berthnasol i Fusnesau Bach a Chanolig, sefydliadau cymunedol, menter gymdeithasol, a elusennau. Rhaid i gyrff sector cyhoeddus glynu wrth reoliadau caffael sector cyhoeddus (Deddf Caffael 2023).

Er nad yw'r sefydliadau hyn yn gorfod dilyn Deddf Gaffael 2023 yn ffurfiol, disgwylir i bob caffael gan ddefnyddio arian cyhoeddus ddilyn prif dargedau'r Ddeddf:

- darparu gwerth am arian,
- gwneud y gorau o fudd cyhoeddus,
- tryloywder,
- gweithredu yn ganlyniadol, a
- trin cyflenwyr yn gyfartal (gan gynnwys ystyried tynnu rhwystrau ar gyfer menterau bach a chanolig).

Er mwyn cefnogi'r economi leol, annogir ymgeiswyr i sicrhau bod o leiaf un o'r dyfynbrisiau a gafwyd yn dod gan gyflenwr lleol pryd bynnag y bo'n ymarferol. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr ddangos ymdrechion i geisio dyfynbrisiau lleol.

### *Gosod gofynion clir ar gyfer eich caffael*

| ***Pam mae gofynion clir yn bwysig*** |
|---|
| *Mae gofynion clir yn helpu cyflenwyr i ddeall beth sydd ei angen arnoch ac yn eich galluogi i gymharu cynigion yn deg. Gall diffinio gofynion yn wael arwain at gostau uwch, oedi, neu nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn cwrdd â'ch anghenion.* |

Wrth brynu, mae rhoi gofynion da yn hanfodol. Mae gofynion, gan gynnwys y manyleb fanwl, yn gweithredu fel angor i'r contract. Os nad yw rhywbeth yn cael ei gynnwys yn y gofynion, ni allwch herio'n hawdd os na gaiff ei ddarparu.

Dylai set dda o ofynion gynnwys y canlynol:

- **Y diben (allbynnau gofynnol):** disgrifiwch yr hyn rydych am i'r prosiect ei gyflawni, nid dim ond rhestr o rannau. Eglurwch yr hyn rydych am i'r nwyddau, y system, y gwaith, neu'r gwasanaeth ei gyflawni. Lle efallai eich bod yn prynu dim ond rhan o ateb cyffredinol neu system, eglurwch yr hyn rydych yn

disgwyl iddi weithio gyda. Gall y camau hyn helpu'r darparwyr posibl i ddeall yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni ac felly cynnig rhywbeth sy'n gweithio i'ch anghenion.

- **Gofynion perfformiad lleiaf:** nodwch y perfformiad lleiaf a ddisgwylir ar gyfer agweddau fel perfformiad y system, gwarantau offer, ac ati. Gall cyflenwyr gynnig lefelau perfformiad fel rhan o'u cynnig, ond mae sefydlu gofynion lleiaf yn sicrhau bod pob cynnig yn cwrdd â'ch anghenion craidd. Ar gyfer ateb cynhyrchu ynni adnewyddadwy, efallai hoffech warantau ar yr ynni a gynigir a gynhyrchwyd yn flwyddyn 1 neu dros gyfnod hirach.
- **Lleoliad a chyfyngiadau gosod**: os ydych yn prynu system, disgrifiwch y safle'n glir. Er enghraifft, os ydych yn prynu PV solar ar do, crybwyllwch fathau o dŷ, cyfeiriadedd, cysgod (coed/siambrau tân), a phroblemau mynediad neu gyfyngiadau gweithio (e.e. osgoi amserau arholiadau mewn ysgol). Gall cyflenwyr gynnig lefelau perfformiad uwch fel rhan o'u cynnig, ond mae gosod gofynion lleiaf yn sicrhau bod pob cynigion yn diwallu eich anghenion craidd.
- **Cefnogaeth ar ôl gosod:** nodwch pa gefnogaeth fydd ei hangen ar ôl gosod, megis monitro, gwasanaethu, ac atgyweirio. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod y system yn gweithredu'n effeithlon dros ei hoes. Nid yw costau gweithredu a chynnal a chadw parhaus yn gymwys am gyllid grant ac rhaid i'r sylfaenwr eu cwmpasu.
- **Safonau perthnasol:** cyfeiriwch at safonau diwydiant a chymwysterau cydnabyddedig lle bo'n bosibl. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyflenwyr yn dilyn arfer da ac yn darparu gwaith sy'n cwrdd â safonau ansawdd a diogelwch disgwyliedig.
- **Amserlenni:** gosod amserlenni cyflwyno'n glir a unrhyw gerrig milltir allweddol ar gyfer y prosiectau.

### *Y broses caffael*

Dylai pob gweithgaredd caffael fod yn gymesur â gwerth, cymhlethdod, a risg y contract, a rhaid sicrhau gwerth am arian a thrylwyredd clir. Dylai hefyd fod yn deg ac yn dryloyw; felly, disgwylir y canlynol:

- **Dylai dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar ofynion unfath** ac yn cael eu hasesu ar sail gyfartal.
- **Cadw pob cofnod a gyfiawnhau'r penderfyniad ar gyfer dibenion archwilio.** Mae hyn yn cynnwys y cais am ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd, pob dyfynbris a dderbyniwyd, y broses ddewis a ddilynwyd a'r penderfyniad terfynol a gyfiawnhawyd.

### Ar gyfer pryniannau a chontractau dan £5,000

- Rhaid i'r caffael fod yn gystadleuol.
- Nid oes nifer leiaf o ddyfynbrisiau.
- Rhaid dangos gwerth am arian.

### Ar gyfer pryniannau a chontractau o £5,000 i £75,000

- Rhaid ceisio **o leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig*** o ffynonellau cystadleuol.

- Dylid cynnwys meini prawf gwerthuso yn y cais am ddyfynbrisiau.
- Argymhellir panel gwerthuso ar gyfer contractau dros £25,000.

### Ar gyfer pryniannau a chontractau dros £75,000

- Rhaid ceisio **o leiaf pedair dyfynbris ysgrifenedig*** o ffynonellau cystadleuol.
- Disgwylir broses tendr ffurfiol fel arfer.
- Dylid nodi meini prawf gwerthuso'n glir yn y ddogfen tendr ac fe'u defnyddir gan y panel gwerthuso yn y broses gwneud penderfyniadau.

*Gallwch hysbysebu cyfleoedd contract ar wefan Caffael Cenedlaethol, www.Sell2Wales.co.uk. Gall hyn helpu os ydych yn cael anhawster wrth adnabod cyflenwyr neu os hoffech ddenu cyflenwyr newydd i roi dyfynbris. Mae hysbysebu ar Sell2Wales yn arfer gorau, fodd bynnag efallai y teimlwch y gallwch eisoes adnabod cyflenwyr a allai gynnig y cynnig gorau cyffredinol.

Ni ddylid rhannu contractau dim ond i gyrraedd trothwy llai o werth (e.e. rhannu contract o £100,000 yn ddwy rhan i leihau nifer y dyfynbrisiau a gafwyd), gan nad yw'n debygol y bydd hyn yn bodloni'r gofyniad am werth am arian.

Cyn arwyddo unrhyw gytundeb, dylech sicrhau bod:

- Cyfarwyddyd hwn wedi'i ddilyn, gan gynnwys cynnal proses prynu teg a chystadleuol.
- Mae telerau'r contract yn deg ac mae'r contract yn cynnwys eich gofynion yn briodol.
- Mae gwerth am arian wedi cael ei ddangos.
- Nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau (gweler y rhan isod).
- Mae gwiriadau ariannol, risg a dilysrwydd wedi'u cwblhau (gweler y rhan isod).

***Os na allwch gydymffurfio â gofynion y grant ar gyfer eitemau a brynwyd**, rhaid i chi gysylltu â'r rheolwr prosiect perthnasol (e.e., Ynni Cymru neu Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru) am arweiniad cyn mynd yn eich blaen. Efallai y bydd angen hysbysebu pellach trwy Sell2Wales.*

## Rheoli Gwrthdaro Buddiannau.

Mae telerau'r grant yn nodi y mae'n rhaid i chi gynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer delio â unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Ariannu boed yn real, posibl neu'n ddamcaniaethol.

Mae'n rhaid i geisiwr sicrhau bod pob pryniant yn cael ei wneud yn deg, yn dryloyw ac heb ragfarn.

Mewn perthynas â phrynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau, bydd gwrthdaro yn digwydd pan fo rhywun sy'n ymwneud â phenderfyniad prynu yn gysylltiedig yn breifat â chyflenwr posibl. Gall hyd yn oed ymddangosiad gwrthdaro greu problemau.

Camau i helpu i fynd i'r afael â materion posibl yw gofyn i'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau prynu gwblhau ffurflen datganiad Gwrthdaro Buddiannau (COI) i nodi unrhyw wrthdaro posibl ymlaen llaw. Mae hyn yn eu galluogi i gael eu rheoli'n briodol, er enghraifft trwy sicrhau bod unrhyw unigolyn gyda gwrthdaro yn cael ei dynnu o'r broses brynu a gwneud penderfyniadau.

Rhaid datgan a chofnodi pob gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu posibl yn ffurfiol. Ni ddylai unigolion gyda gwrthdaro gymryd rhan yn y broses werthuso, sgorio, neu wneud penderfyniadau.

Dylai ymgeiswyr gynnal cofnod ysgrifenedig o wrthdaro a sut y cafodd ei reoli, gan y gall Llywodraeth Cymru neu Ynni Cymru ofyn am y dystiolaeth hon fel rhan o archwiliadau neu drosolwg sicrwydd.

## Systemau ariannol, risg a diwydrwydd dyladwy

Mae telerau'r grant yn nodi y mae'n rhaid i chi gynnal systemau ariannol, risg a dilysrwydd priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant a/neu i brynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau oddi wrth drydydd parti.

Cyn llofnodi contract, dylech sicrhau bod y cyflenwr yn alluog ac yn sefydlog yn ariannol.

Gall ymchwil ofalus gynnwys amryw o weithgareddau, megis gwirio yswiriant priodol (e.e. iawndal proffesiynol, atebolrwydd cyhoeddus, ac ar gyfer cyflenwyr offer, atebolrwydd cynnyrch), cynnal gwiriadau ariannol drwy asiantaethau credyd cydnabyddedig, adolygu cofnodion Ty’r Cwmnïau, ac ennill cyfeiriadau cleientiaid.

## Treth ar Werth (TAW)

**Anogir ymgeiswyr yn gryf i geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â TAW, gan y gall cymhwysedd i gael rhyddhad fod yn gymhleth ac yn benodol i bob sefydliad.**

Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau eu statws TAW a cheisio cyngor proffesiynol os bydd angen.

- caiff sefydliadau sydd wedi’u cofrestru ar gyfer TAW hawlio costau net yn unig.
- caiff sefydliadau nad ydynt wedi’u cofrestru ar gyfer TAW hawlio TAW anadferadwy.
- mae’r ymdriniaeth o ran TAW yn dibynnu ar y math o sefydliad a’r defnydd o’r adeilad.

Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am ymdriniaeth fanwl gywir o ran TAW.

Efallai y bydd elusennau, BBaChau, a sefydliadau’r sector cyhoeddus yn gymwys i gael rhyddhad TAW neu gyfraddau gostyngol – cyfeiriwch at ganllawiau CThEF yma. Mae'r ymdriniaeth o ran TAW ar gyfer paneli solar, pympiau gwres, a systemau storio ynni batri yn dibynnu ar y math o sefydliad a'r defnydd o'r adeilad.

Yng Nghymru, mae TAW cyfradd sero yn berthnasol i ddeunyddiau arbed ynni a osodir mewn adeiladau a ddefnyddir at ddibenion elusennol yn unig neu eiddo preswyl penodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol os yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gweithgareddau masnachol, megis rhentu gofod ar gyfer digwyddiadau.

I fod yn gymwys i gael TAW Cyfradd Sero:

- Rhaid bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol yn unig.
- Rhaid i'r gosodiad fodloni'r diffiniad o ddeunyddiau arbed ynni yn unol â rheolau TAW.

*Tabl 2 Cyfraddau TAW*

| Deunydd/Gwasanaeth | Y Gyfradd Safonol (20%) | Cyfradd Sero (0%) |
|---|---|---|
| **Paneli Solar** | Wedi'u gosod mewn eiddo masnachol (e.e. swyddfeydd, siopau manwerthu, safleoedd diwydiannol) | Wedi'u gosod mewn adeiladau preswyl neu elusennol cymwys a ddefnyddir at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes |
| **Systemau Storio Ynni Batri** | Wedi'u gosod mewn eiddo masnachol (e.e. swyddfeydd, siopau manwerthu, safleoedd diwydiannol) | Wedi'u gosod mewn adeiladau preswyl neu elusennol cymwys a ddefnyddir at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes |
| **Pympiau Gwres** | Wedi'u gosod mewn eiddo masnachol (e.e. swyddfeydd, siopau manwerthu, safleoedd diwydiannol) | Wedi'u gosod mewn llety preswyl neu adeiladau elusennol cymwys |
| **Llafur (gosod)** | Lle nad yw gosodiad yn gymwys ar gyfer cyfradd sero | Lle y mae gosodiad yn gymwys fel deunyddiau arbed ynni cyfradd sero |

## Defnyddio Arian Cyhoeddus

***Mae hyn yn cefnogi Adran 10 (Cwestiwn 40 o dan Lwybr 1 / Cwestiwn 41 o dan Lwybr 2)***

Rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir bod eu prosiect yn gwneud defnydd da o arian cyhoeddus, yn werth yr arian, ac yn cynnig budd ystyrlon i'r cyhoedd. Rhaid i

geisiadau esbonio pam y mae angen arian cyhoeddus, sut y mae’r costau yn gymesur â’r deilliannau, a sut y bydd y buddion yn ymestyn y tu hwnt i’r sefydliad ymgeisio.

Mae enghreifftiau o sut y gall ymgeiswyr gynnig tystiolaeth neu gyfiawnhau defnyddio arian cyhoeddus yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Esbonio pam na ellir symud ymlaen â’r prosiect, neu pam y byddai oedi sylweddol, heb gymorth cyhoeddus (er enghraifft oherwydd risgiau, cyfnodau ad-dalu hir neu gostau cyfalaf y mae’n rhaid eu talu ymlaen llaw,).
- Dangos sut y mae’r cyllid y gofynnwyd amdano yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr.
- Darparu tystiolaeth o archwilio neu sicrhau ffynonellau cyllid eraill (megis cynlluniau cyllid neu grantiau masnachol) ac esbonio pam nad ydynt yn ddigon i gwmpasu holl rychwant y prosiect.
- Esbonio sut y mae’r prosiect yn cefnogi defnyddio SLES yn ehangach yng Nghymru, gan gynnwys trwy gamau dysgu, efelychu neu ddulliau gweithredu a allai ehangu’n gyflym.

# Arfer Da ac Ymddygiad Disgwyliedig (Nas Asesir)

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau arfer da i gefnogi cyflawni prosiectau cyfrifol, cynaliadwy, uchel eu hansawdd. Mae'r meysydd isod, nad ydynt yn cael eu hasesu nac yn effeithio ar benderfyniadau cyllido, yn adlewyrchu safonau ymddygiad disgwyliedig wrth gyflawni prosiectau sy'n derbyn arian cyhoeddus.

## Cadwyni Cyflenwi Moesegol

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi i annog sefydliadau i ystyried datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol wrth gyflawni contractau a phrosiectau. Mae'r Cod yn cwmpasu'r materion cyflogaeth canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern a thorri hawliau dynol
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau mantell a chontractau dim oriau
- Talu'r Cyflog Byw

Dylai ymgeiswyr ystyried egwyddorion y Cod Ymarfer wrth gyflwyno eu prosiectau a dangos, lle bo'n briodol, sut y byddant hwy a'u contractwyr, eu hisgontractwyr a'u cyflenwyr yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

## Safonau'r Diwydiant

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod technolegau SLES yn bodloni safonau perthnasol y diwydiant a'u bod yn cydweddu â'r rhwydwaith trydan a'r system ynni ehangach.

Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod ardystiad priodol gan osodwyr (er enghraifft, ardystiad y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) ar gyfer technolegau cymwys, neu gynlluniau cydnabyddedig amgen, megis HETAS, NAPIT, NICEIC, neu Flexi-Orb).

## Diogelu Data

Wrth ddylunio a gweithredu prosiectau SLES — yn enwedig rhai sy'n ymwneud â systemau clyfar, llwyfannau monitro, cydgasglu data, neu ddata cwsmeriaid/aelwydydd — rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU (GDPR y DU) ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau'r canlynol:

- bod data personol yn cael eu prosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw;
- bod mesurau diogelwch technegol a sefydliadol ar waith;
- bod trefniadau rhannu data wedi'u dogfennu'n glir a'u cyfiawnhau;
- bod hawliau unigolion o dan y ddeddfwriaeth diogelu data yn cael eu parchu;
- bod hysbysiadau preifatrwydd, ac Asesiadau Effaith ar Ddiogelu Data yn cael eu cwblhau, lle bo hynny'n ofynnol, cyn dechrau gweithredu'r prosiect.

Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu data priodol ar waith ar hyd oes y prosiect. Gall peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data effeithio ar gymhwystra a chydymffurfiaeth barhaus â'r Llythyr Cynnig Grant.

## Cydnerthedd y Grid

Anogir ymgeiswyr sy'n gosod technoleg cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy i ystyried systemau clyfar a ddyluniwyd i wella cydnerthedd ynni lleol.

Gallai arfer da gynnwys defnyddio systemau a all weithredu mewn modd ynysig os bydd y grid yn methu am gyfnod, gan sicrhau cyflenwad ynni parhaus. Er enghraifft, gellir trefnu i systemau Solar Ffotofoltaidd wefru'r batri storio cysylltiedig yn uniongyrchol gan ddefnyddio trydan DC.

Lle argymhellir modd ynysig, dylai ymgeiswyr geisio cyngor technegol priodol ac ystyried gofynion sy'n ymwneud â dyluniad a diogelwch y system a chaniatâd cyrff perthnasol megis y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO), yr awdurdod rheoli adeiladu, a'r gwasanaethau tân ac achub.

## Gwaredu Gwastraff

Rhaid cadw'r asedau a ariennir am y cyfnod gofynnol a bennir yn Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn neu wedi hynny, gall fod gofyn atgyweirio, amnewid, neu waredu cydrannau sydd wedi treulio, wedi methu neu wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw gyfarpar a waredir yn cael ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a gofynion dyletswydd gofal gwastraff. Lle bo hynny'n ymarferol, dylid rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio, atgyweirio neu ailgylchu eitemau yn hytrach na'u gwaredu.

Rhaid cymryd gofal arbennig wrth waredu cydrannau sy'n cynnwys deunyddiau peryglus neu arbenigol, gan gynnwys batris, gwrthdroyddion, a chyfarpar trydanol arall. Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a gofynion dyletswydd gofal gwastraff. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig canllawiau ynghylch rheoli gwastraff, gwastraff peryglus a defnyddio cludwyr gwastraff trwyddedig. Rhaid i drefniadau gwaredu batris a chyfarpar trydanol gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, gan gynnwys y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) a'r Rheoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff.

Dylai ymgeiswyr:

- Ddefnyddio cludwyr gwastraff a chyfleusterau trin gwastraff trwyddedig;
- Cadw nodiadau trosglwyddo gwastraff neu ddogfennau cludo lle bo gofyn;
- Dilyn canllawiau'r gwneuthurwr ac arfer gorau amgylcheddol wrth ddatgomisiynu cyfarpar.

Er nad yw hyn yn feini prawf wedi ei sgorio, disgwylir i ymgeiswyr ddangos gofal gyfrifol am yr amgylchedd trwy gydol oes yr ased a gyllidir. Rhaid i unrhyw gostau

sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaredu gwastraff gael eu cludo gan yr ymgeisydd, ni ellir eu hariannu trwy'r Grant Cyfalaf.

# Gwybodaeth Bwysig

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyflwyno amodau cyfreithiol, ariannol a gweinyddol pwysig yng nghyswllt Grant Cyfalaf Ynni Cymru. Rhaid i ymgeiswyr ddarllen yr adran hon yn ofalus cyn cyflwyno cais.

## Statws Cyfreithiol, Atebolrwydd ac Amodau'r Rhaglen

- Oherwydd Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, dylai ymgeiswyr nodi y bydd y penderfyniad ynghylch dyrannu arian i raglen grant 2026-27 yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad.
- Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn rhoi arweiniad cyffredinol ond nid oes iddo unrhyw statws cyfreithiol.
- Mae unrhyw gyngor/cymorth a ddarperir gan Ynni Cymru yn cael ei ddarparu ar sail dim atebolrwydd.
- Ni fydd Ynni Cymru na Llywodraeth Cymru yn atebol i chi am unrhyw golled, difrod, costau, treuliau, nac atebolrwydd arall sy'n deillio o ddarparu/sy'n gysylltiedig â darparu unrhyw gyngor neu gymorth o'r math hwn a/neu unrhyw ddibyniaeth a roddir gennych ar y cyngor neu'r cymorth hwnnw.
- Dyfernir cyllid trwy broses gystadleuol.
- Hyn a hyn o gyllid sydd ar gael.
- Ni ellir gwarantu rhoi cyllid i unrhyw sefydliad.
- Mae pob dyfarniad yn ddewisol ac nid oes yna broses apelio.
- O fod yn ddarparwr cyllid sector cyhoeddus ni ddylai'r gronfa hon ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sy'n dadleoli neu'n ystumio darpariaeth bresennol y farchnad. Bydd y ffocws ar fuddsoddiadau sydd naill ai'n methu cael mynediad at fathau eraill o fuddsoddiadau mwy confensiynol, neu'n cael trafferth gwneud hynny.
- Caiff ceisiadau eu hystyried yng nghyd-destun cyllid arall sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac efallai y bydd ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at gyllid amgen neu gymysg fel y bo'n briodol.
- Nid yw Ynni Cymru na Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau penodol sy'n debygol o fod yn destun dadlau ynghylch y defnydd priodol o arian cyhoeddus, ac felly ni fyddwn yn ariannu unrhyw sefydliad neu weithgarwch a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Ynni Cymru neu Lywodraeth Cymru.
- Gwneir dyfarniadau o dan gynllun cymhorthdal cofrestredig SC11250 y DU 'Cynllun Cymhorthdal ar gyfer Cymorth Ynni Lleol (Cymru)' yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau (2022) y DU. Byddwch yn ymwybodol y bydd manylion pob dyfarniad yn cael eu cyhoeddi ar Gronfa Ddata Tryloywder Cymorthdaliadau y DU yn unol ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i reoli cymorthdaliadau.
- Ystyrir bod gweithgareddau sydd eisoes wedi dechrau y tu hwnt i gwmpas y grant hwn.

- Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw ddarpariaethau yn amodau'r grant neu'r datganiad y mae'n ofynnol i chi ei wneud ar ddiwedd y ffurflen gais dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Talu'r Cyllid Grant

Telir y grant hwn trwy ôl-daliadau, sy'n golygu na fydd y cyllid grant yn cael ei ryddhau tan ar ôl i'r ymgeisydd ymrwymo i'r costau cymwys, eu talu a darparu tystiolaeth ohonynt. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys:

- Dogfennau hawlio Llywodraeth Cymru.
- Anfonebau priodol.
- Taflenni amser, lle bo hynny'n berthnasol.
- Prawf o'r taliadau.
- Tystiolaeth fod y prosiect yn symud ymlaen.

Felly, rhaid i'r ymgeiswyr allu rheoli llif arian y prosiect cyn i'r grant gael ei hawlio.

Mae modd hawlio'r grant ar ôl cyflawni'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y prosiect yn unig. Cadarnheir nifer y cerrig milltir, eu hamseriad a'u gwerth yn Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru.

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod digon o adnoddau ariannol ganddynt i wneud y canlynol:

- darparu ar gyfer y costau a delir ymlaen llaw yn rhan o'r prosiect;
- talu contractwyr a chyflenwyr yn unol â'r telerau cytunedig;
- rheoli unrhyw daliadau dargadw neu falans terfynol cyn i'r grant gael ei ad-dalu.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth briodol i ategu'r grant a hawlir, megis anfonebau, prawf o daliadau, a chadarnhad bod cerrig milltir wedi'u cyflawni.

Os na all sefydliad reoli'r ôl-daliadau a'u goblygiadau o ran y llif arian, gallai hynny effeithio ar y tebygolrwydd o gyflawni'r prosiect a chymhwystra'r sefydliad i gael cyllid.

## Adfachu

Os yw'ch sefydliad yn derbyn grant, efallai y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl os digwydd un o'r canlynol yn ystod Cyfnod Perchnogi'r Ased a Ariennir y nodir yn Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru ei fod yn para 10 mlynedd:

- os ydych yn rhoi'r gorau i fasnachu;
- os yw eich busnes yn newid yn sylweddol o'r hyn a nodwyd gennych yn eich cais;
- os ydych yn gwerthu unrhyw eitemau a brynwyd â'r grant;
- os caiff yr eiddo neu'r safle lle mae'r SLES a ariennir ei werthu;

- os yw perchnogaeth eich busnes yn newid dwylo;
- os ydych yn symud eich busnes y tu allan i Gymru neu'n ei werthu.

## Gwiriadau Atal Gwyngalchu Arian (AML) a Throseddau Ariannol

Mae gofyn i Ynni Cymru a Llywodraeth Cymru gydymffurfio â deddfwriaeth a chyfarwyddyd y DU ynghylch atal gwyngalchu arian (AML) ac atal twyll a throseddau ariannol. Yn rhan o hynny, gall ymgeiswyr wynebu gwiriadau i wirhau pwy ydynt, eu trefniadau llywodraethu, a defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Bydd yr wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer y gwiriadau hyn yn amrywio yn ôl y math o sefydliad, swm y cyllid, a'r proffil risg. Gall fod gofyn i sefydliadau cymunedol, BBaChau ac ymgeiswyr eraill uchel eu risg ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r gwiriadau hyn.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer data personol a gesglir yng nghyswllt y cynllun grant hwn. Prosesir data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data y DU a'r nodyn preifatrwydd yng nghyswllt grantiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gasglu, defnyddio a chadw data personol yma: Hysbysiad preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

Dylai ymgeiswyr gofio bod cynigion grant yn amodol ar gwblhau a bodloni'r holl wiriadau angenrheidiol o ran diwydrwydd dyladwy. Gall peidio â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu bryderon sy'n deillio o'r gwiriadau hyn, olygu bod Llythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru yn cael ei ddal yn ôl neu'n cael ei atal.

## Cymorth a Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein proses ymgeisio yn hygyrch felly cysylltwch â ni'n uniongyrchol os hoffech ofyn am addasiadau rhesymol: **ynnicymru@localpartnerships.gov.uk**.

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru arweiniad ar ei wefan. Mae arweiniad ar gael ar gyfer y canlynol:

1. **Amlinelliad ac Ymarferoldeb Prosiectau** – Yn eich helpu i asesu ymarferoldeb eich prosiect arfaethedig a datblygu amlinelliad clir.
2. **Datblygu Cais am Gyllid** – Yn darparu cipolygon allweddol ar strwythuro cais cryf am gyllid.

Mae **Ynni Cymru** hefyd yn darparu adnoddau a gwasanaethau i gynorthwyo ymgeiswyr, gan gynnwys:

1. **Sesiynau Galw Heibio** – Gall ymgeiswyr ymuno â galwadau a drefnir gyda thimau Ynni Cymru ar gyfer sesiynau Holi ac Ateb. Cofrestrwch yma: Ynni Cymru - Local Partnerships

# Rhestr Termau

*Tabl 3 Rhestr Termau*

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Adnoddau Ynni Gwasgaredig (DER)** | Ffynonellau ynni datganoledig megis paneli solar, tyrbinau gwynt, a systemau storio ynni batri. |
| **Adolygiad o Ffioedd wedi'u Targedu (TCR)** | Adolygiad rheoleiddiol gan Ofgem yn effeithio ar strwythurau ffioedd rhwydwaith trydan, yn enwedig ar gyfer safleoedd â galw ysbeidiol. |
| **Arian Cyfatebol** | Gofyniad i ymgeiswyr gyfrannu eu harian eu hunain neu sicrhau cyllid ychwanegol gan ffynonellau eraill. |
| **Astudiaeth Ddichonoldeb** | Asesiad o hyfywedd technegol, ariannol ac amgylcheddol prosiect. |
| **Budd Cymunedol** | Y manteision cymdeithasol, economaidd, neu amgylcheddol y mae prosiect yn eu cynnig i ardal leol. |
| **Capasiti Cyflenwi Cytunedig (ASC)** | Uchafswm y trydan y gall safle ei dynnu o'r grid, gan effeithio ar daliadau sefydlog. |
| **Cerbyd Trydan (EV)** | Cerbyd sy'n cael ei bweru gan drydan yn hytrach na thanwydd ffosil, gan leihau allyriadau carbon. |
| **Cerrynt Uniongyrchol (DC)** | Math o lif trydan a ddefnyddir mewn systemau ynni adnewyddadwy, megis solar ffotofoltaidd a systemau storio ynni batri. |
| **Cytundeb Prynu Pŵer (PPA)** | Contract rhwng cynhyrchydd ynni a phrynwr, yn pennu'r telerau ar gyfer gwerthu'r trydan a gynhyrchir. |
| **Cytundeb Dosbarthu Cyswllt a Defnyddio'r SystemCytundeb Dosbarthu Cyswllt a Defnyddio'r System (DCUSA)** | Contract rhwng sawl cwmni sy'n nodi'r telerau ar gyfer defnyddio a chysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan ym Mhrydain Fawr. Mae'n safoni'r trefniadau masnachol rhwng gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu (DNOs), cyflenwyr, a defnyddwyr eraill i sicrhau mynediad teg at y rhwydwaith a gofalu ei fod yn gweithredu mewn modd effeithlon. |
| **Flexi-Orb** | Mae Flexi-Orb yn gorff tystysgrif sy'n seiliedig yn y DU sy'n cofrestru ac yn ardystio contractwyr trydanol a gosodwyr. Mae'n darparu cynlluniau achredu sy'n cadarnhau bod gosodwyr yn cwrdd â safonau technegol a gofynion rheoleiddiol angenrheidiol ar gyfer gwaith trydanol a certain technolegau is-garbon. |
| **Gwarant Allgludo Clyfar (SEG)** | Cynllun gan Lywodraeth y DU sy'n caniatáu i gynhyrchwyr ynni ar raddfa fach werthu trydan dros ben i'r grid. |
| **Gwasanaethau** | Tasgau neu weithgareddau anniriaethol a ddarperir gan un parti i'r llall yn gyfnewid am iawndal. Ymhlith yr enghreifftiau y mae ymgynghoriaeth neu gyngor cyfreithiol. |
| **Gweithiau** | Mae'n cyfeirio at brosiectau adeiladu neu beirianneg sifil, gan gynnwys tasgau megis datblygu seilwaith, atgyweirio, adnewyddu, a gosodiadau. Gall hyn gynnwys newidiadau ffisegol i dir, adeiladau, neu adeileddau. |
| **Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO)** | Cwmni sy'n gyfrifol am weithredu a chynnal y rhwydwaith dosbarthu trydan rhanbarthol. |
| **Gwrthdaro buddiannau** | Mae gwrthdaro o fuddiant yn digwydd pan fydd unigolyn sydd wedi'i gynnwys mewn proses gwneud penderfyniadau (fel |

| | |
|---|---|
| | cyflenwi neu ddewis cyflenwr) yn cael perthynas bersonol, ariannol neu broffesiynol gyda chyflenwr neu sefydliad a allai ddylanwadu, neu ymddangos i ddylanwadu, ar eu diduedd. |
| **HETAS (Cynllun Profi a Chydsynio Offer Gwresogi)** | Mae HETAS yn gorff ardystio yn y DU ar gyfer gosodwyr a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â systemau gwresogi tanwydd solet, biomas, a phren. Mae ardystiad HETAS yn cadarnhau bod gosodwyr yn gymwys i osod a chynnal y systemau hyn yn ddiogel ac yn unol â rheoliadau adeiladu perthnasol a safonau'r diwydiant. |
| **Llythyr Cynnig Grant** | Dogfen ffurfiol a roddir i ymgeiswyr llwyddiannus yn nodi manylion y telerau ac amodau ariannu. |
| **Man Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP)** | Gorsaf wefru ar gyfer cerbydau trydan, wedi'i hymgorffori mewn system ynni glyfar. |
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** | Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) wedi'i gynllunio i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd â'r amddifadedd mwyaf. |
| **NAPIT (Cymdeithas Genedlaethol arolygwyr a phrofwyr proffesiynol)** | Mae NAPIT yn gynllun aelodaeth wedi'i gymeradwyo gan lywodraeth y DU ar gyfer gosodwyr trydanol ac arbenigwyr gwasanaethau adeiladu eraill. Mae tystysgrif NAPIT yn cadarnhau bod gosodwyr yn gymwys i gynnal gwaith gosod, arolygu a phrofi trydanol yn unol â rheoliadau diogelwch y DU. |
| **NICEIC (Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar Gontractio Gosod Trydan)** | Mae NICEIC yn un o brif gyrff ardystio'r DU ar gyfer contractwyr trydan. Mae'n asesu ac yn ardystio gwneuthurwyr trydan a gosodwyr i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safonau technegol gofynnol, gofynion diogelwch, a rheoliadau adeiladu ar gyfer gwaith trydan. |
| **Nwyddau** | Eitemau ffisegol sy'n cael eu prynu a'u gwerthu. Yng nghyd-destun caffael, mae nwyddau'n cyfeirio at gynhyrchion diriaethol a brynir gan sefydliad i'w defnyddio yn ei weithrediadau. |
| **Offeryn Storio Ynni Cymru (WEST)** | Adnodd a ddatblygwyd gan Ynni Cymru i fodelu refeniw systemau storio ynni batris ac optimeiddio economeg prosiectau. |
| **Proses Gaffael** | Y dull strwythuredig o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn unol â rheoliadau ariannu. |
| **Pwmp Gwres o'r Aer (ASHP)** | System wresogi sy'n tynnu gwres o'r aer i ddarparu gwres sy'n effeithlon o ran ynni. |
| | |
| **Sero Net** | Targed i gydbwyso allyriadau carbon â'r carbon a waredir, gyda'r nod o leihau ôl troed carbon cyffredinol prosiect. |
| **SLES** | Rhwydwaith o atebion ynni integredig lleol, gan gynnwys cynhyrchu adnewyddadwy, storio, a rheoli galw. |
| **System Rheoli Adnoddau Ynni Gwasgaredig (DERMS)** | System ar gyfer rheoli amryfal ffynonellau ynni, gan optimeiddio effeithlonrwydd a sefydlogrwydd y grid. |
| **System Rheoli Adeiladau (BMS)** | System reoli sy'n monitro ac yn rheoli defnydd ynni adeiladau, gan wella effeithlonrwydd. |
| **System Storio Ynni Batri (BESS)** | System sy'n storio trydan dros ben i'w ddefnyddio'n ddiweddarach, gan wella effeithlonrwydd a chydnerthedd ynni. |

# Atodiad 1 – Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES)

## SLES Syml

Mae SLES syml yn ymgorffori technolegau allweddol megis gwresogi di-garbon, paneli solar, systemau storio ynni batri, a rheolyddion clyfar i wneud y defnydd gorau o ynni lleol. Byddai cais ar gyfer y SLES hon yn rhan o gronfa grant Llwybr 1. Trwy storio pŵer dros ben i'w ddefnyddio'n ddiweddarach, mae'n lleihau gwastraff, yn lleihau costau, ac yn gwella cynaliadwyedd. Gellir cynnwys rheolyddion gwresogi clyfar hefyd, gan ddefnyddio awtomatiaeth a dadansoddeg data i sicrhau defnydd effeithlon o ynni.

Er enghraifft, gallai adeilad megis swyddfa, canolfan gymunedol, neu ganolfan hamdden osod paneli solar ffotofoltaidd (PV), system storio ynni batris, pwmp gwres o'r aer (ASHP), a mesuryddion clyfar. Byddai'r gosodiad hwn yn gwneud y mwyaf o hunan-ddefnydd ar y safle ac yn lleihau allyriadau carbon.

Gallai Canolfan Gymunedol integreiddio:

- Paneli To Solar Ffotofoltaidd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy
- System Storio Ynni Batris (BESS) i storio pŵer dros ben
- Pwmp Gwres o'r Aer (ASHP) ar gyfer gwresogi effeithlon
- Dargyfeiriwr dŵr poeth solar i wella'r cyflenwad dŵr poeth
- Mannau gwefru Batris Cerbydau Trydan ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy

Mae'r technolegau hyn yn gweithio gyda'i gilydd trwy reolyddion clyfar, gan sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl. Yn ystod y misoedd cynhyrchu brig, gall yr adeilad redeg yn gyfan gwbl ar ynni solar yn ystod oriau golau dydd. Pan fodlonir y galw a bod y batri yn llawn, mae'r system yn allgludo ynni dros ben yn awtomatig i'r grid, gan gynhyrchu refeniw trwy Gytundebau Prynu Pŵer (PPA) neu daliadau Gwarant Allgludo Clyfar (SEG).

## *SLES o Gymhlethdod Cymedrol*

Mae SLES o gymhlethdod cymedrol yn integreiddio sawl ffynhonnell ynni gwasgaredig – megis solar ffotofoltaidd, gwynt, pympiau gwres, a systemau storio ynni batri – ochr yn ochr â rheoli ynni deallus a galluoedd ymateb i alw. Mae hyn yn caniatáu i gydrannau amrywiol, gan gynnwys mannau gwefru cerbydau trydan, systemau gwresogi, a dyfeisiau, wneud y defnydd gorau o ynni yn seiliedig ar gyflenwad a galw. Byddai'r math hwn o brosiect SLES yn rhan o drywydd cronfa grant Llwybr 1 a 2.

Mae enghraifft ymarferol yn cynnwys grŵp o fusnesau bach a chanolig yn cydweithio â sefydliad ynni cymunedol i osod paneli to solar ffotofoltaidd, Systemau Storio Ynni Batri (BESS), Pympiau Gwres o'r Aer (ASHP), dargyfeirwyr dŵr poeth solar, a mannau gwefru cerbydau trydan ledled parc busnes bach. Y sefydliad ynni cymunedol sy'n arwain y prosiect, yn berchen ar y systemau, ac yn eu rheoli a'u

cynnal, gan gynnwys trefniadau prydlesu'r to ar gyfer paneli solar ffotofoltaidd, gan werthu trydan wedi'i gynhyrchu trwy solar a'i storio, i fusnesau bach a chanolig trwy Gytundeb Prynu Pŵer (PPA) gwifren breifat ar gyfraddau is na'r grid.

Mae'r system yn gweithredu mewn modd deallus, gan flaenoriaethu'r defnydd o ynni ar y safle i leihau allyriadau carbon a chostau ynni. Pan fodlonir y galw a bod y batris yn llawn, caiff trydan adnewyddadwy dros ben ei allgludo i'r grid dan Gytundeb Prynu Pŵer wedi'i allgludo, gyda'r posibilrwydd o gyfranogiad ym marchnadoedd refeniw Systemau Storio Ynni Batri. At hynny, mae systemau solar a batri yn darparu pŵer wrth gefn yn ystod toriadau i gyflenwad y grid. Mae unrhyw arbedion ariannol a refeniw a gynhyrchir yn cael eu hailfuddsoddi mewn prosiectau cymunedol pellach, gan wella cydnerthedd a chynaliadwyedd ynni lleol.

## System SLES Arloesol

Mae SLES arloesol yn system gwbl integredig a hynod ddeallus sy'n cyfuno sawl fector ynni (trydan, gwres, cludiant) ag awtomatiaeth uwch, optimeiddio seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial (AI), a rhyngweithiad â'r grid. Gall optimeiddio a chydbwyso'r defnydd o ynni ar draws adeiladau, diwydiannau a chymunedau mewn modd dynamig, gan gynnig hyblygrwydd ar ochr y galw, a gall o bosibl gefnogi'r broses o fasnachu ynni ymhlith cymheiriaid. Byddai'r math hwn o brosiect SLES yn rhan o drywydd cronfa grant Llwybr 2.

Er enghraifft, gallai Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC) osod paneli to solar ffotofoltaidd, System Storio Ynni Batris a phympiau gwres ar eiddo lleol amrywiol (cartrefi, adeiladau cyhoeddus, busnesau bach a chanolig, ffermydd), adeiladu fferm solar, tyrbin gwynt, a generadur dŵr, a chreu system Gorsaf Ynni Rithwir (VPP), gan gysylltu a chydgasglu'r holl adnoddau ynni gwasgaredig hyn mewn modd digidol mewn un rhwydwaith a reolir yn ganolog. Byddai'r adnoddau hyn yn cael eu rheoli a'u hoptimeiddio i fod yn system ynni rithwir unedig a all weithredu'n debyg iawn i orsaf ynni gonfensiynol. Byddai'r Orsaf Ynni Rithwir yn hwyluso'r broses o integreiddio ynni adnewyddadwy ac yn darparu mwy o hyblygrwydd o ran bodloni'r galw am ynni, gan gynnig buddion megis pŵer glanach a mwy fforddiadwy.

Mae argaeledd trydan adnewyddadwy lleol rhatach yn cymell y broses o gyflwyno technolegau megis pympiau gwres, gwefru batris cerbydau trydan ac electrolysis hydrogen gwyrdd, cludiant sy'n defnyddio tanwydd hydrogen, a chwistrellu hydrogen cyfunol i'r grid nwy lleol. Caiff Marchnad Ynni Leol (LEM) ei chreu lle mae cwsmeriaid yn cael trydan rhatach pan fydd y systemau'n cynhyrchu ynni. Mae'r refeniw yn llifo i'r Cwmni Buddiant Cymunedol. Y Cwmni Buddiant Cymunedol sy'n cefnogi ac yn cynnal y systemau. Mae System Rheoli Adnoddau Ynni Gwasgaredig (DERMS) awtomataidd seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) yn anfon ynni lle y mae angen iddo fynd, a hynny ar yr adeg gywir, ac yn rheoli rhyngweithiadau â'r grid. Gall y System Rheoli Adnoddau Ynni Gwasgaredig hefyd allgludo ynni i'r grid mewn modd deallus, a hynny am dâl, neu gall gymryd rhan mewn marchnadoedd refeniw/hyblygrwydd batris.

# Atodiad 2 – Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO)

*Tabl 4 - DNOs*

| SIR | GWEITHREDWR RHWYDWAITH DOSBARTHU |
|---|---|
| **YNYS MÔN** | SP Energy Networks |
| **BLAENAU GWENT** | National Grid Electricity Distribution |
| **PEN-Y-BONT AR OGWR** | National Grid Electricity Distribution |
| **CAERFFILI** | National Grid Electricity Distribution |
| **CAERDYDD** | National Grid Electricity Distribution |
| **SIR GAERFYRDDIN** | National Grid Electricity Distribution |
| **CEREDIGION** | SP Energy Networks / National Grid Electricity Distribution |
| **CONWY** | SP Energy Networks |
| **SIR DDINBYCH** | SP Energy Networks |
| **SIR Y FFLINT** | SP Energy Networks |
| **GWYNEDD** | SP Energy Networks |
| **MERTHYR TUDFUL** | National Grid Electricity Distribution |
| **SIR FYNWY** | National Grid Electricity Distribution |
| **CASTELL-NEDD PORT TALBOT** | National Grid Electricity Distribution |
| **CASNEWYDD** | National Grid Electricity Distribution |
| **SIR BENFRO** | National Grid Electricity Distribution |
| **POWYS** | SP Energy Networks/National Grid Electricity Distribution |
| **RHONDDA CYNON TAF** | National Grid Electricity Distribution |
| **ABERTAWE** | National Grid Electricity Distribution |
| **TORFAEN** | National Grid Electricity Distribution |
| **BRO MORGANNWG** | National Grid Electricity Distribution |
| **WRECSAM** | SP Energy Networks |

# Atodiad 3 – Caniatâd Cynllunio

**Fe'ch cynghorir i droi at adran gynllunio neu wefan eich awdurdod lleol i gael hyd i ddogfennau a chanllawiau sy'n benodol i'ch ardal, gan y gall rheoliadau a gofynion amrywio.**

## Paneli Solar

Mae gosod paneli solar ar eiddo domestig[3] ac annomestig[4] yn debygol o fod yn ddatblygiadau a ganiateir, nad oes angen gofyn am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer, cyn belled ag y bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau isod yn berthnasol yn gyffredinol, er bod rhai gwahaniaethau rhwng y rheolau domestig ac annomestig. I weld y manylion llawn, edrychwch ar y canllawiau perthnasol ar LLYW.CYMRU.

Yn achos paneli solar ar eiddo annomestig, dylid bodloni'r amodau sylfaenol canlynol, i fod yn gymwys i gael statws datblygiad a ganiateir:

- Rhaid i'r paneli beidio ag ymwthio allan fwy na 200 mm o oledd neu arwyneb y to.
- Mewn ardaloedd cadwraeth neu Safleoedd Treftadaeth y Byd, ni ellir gosod cyfarpar solar ffotofoltaidd neu solar thermol ar wal sy'n wynebu priffordd.
- Mae cyfyngiadau arbennig yn berthnasol mewn ardaloedd cadwraeth, Parciau Cenedlaethol, ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac efallai y bydd angen caniatâd cynllunio hyd yn oed os yw'r paneli yn bodloni meini prawf eraill ar gyfer datblygiadau a ganiateir.
- Rhaid i'r gosodiad beidio ag effeithio'n sylweddol ar edrychiad yr adeilad na'r amgylchedd o'i gwmpas.

Bydd angen Caniatâd Cynllunio yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Mae'r eiddo yn Adeilad Rhestredig neu wedi'i leoli mewn ardal sensitif, megis ardal gadwraeth, Parc Cenedlaethol, neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Mae'r gosodiad arfaethedig y tu hwnt i'r cyfyngiadau uchder neu faint, neu y mae'n newid edrychiad yr adeilad yn sylweddol.

## Pympiau Gwres o'r Aer (ASHP)

Fel rheol, mae gosod un pwmp gwres o'r aer ar eiddo domestig yng Nghymru yn ddatblygiad a ganiateir, cyn belled â'i fod yn cydymffurfio â Safonau Cynllunio MCS (MCS 020 neu safonau cyfatebol) ac yn bodloni'r amodau canlynol:

- Ni ellir gosod mwy nag un pwmp gwres o'r aer ar eiddo neu yng nghwrtil eiddo.
- Rhaid i'r uned gywasgu awyr agored (gan gynnwys y gorchudd) beidio â bod yn fwy nag 1 metr ciwbig o ran cyfaint.

---

[3] Caniatâd cynllunio: paneli solar | LLYW.CYMRU
[4] Caniatâd cynllunio: paneli solar (annomestig) | LLYW.CYMRU

- Ni ellir gosod unrhyw ran o'r pwmp gwres o'r aer o fewn 3 metr i ffin yr eiddo.
- Rhaid defnyddio'r pwmp gwres o'r aer at ddibenion gwresogi yn unig.
- Ni ellir gosod pwmp gwres o'r aer ar do ar oledd. Os gosodir ef ar do fflat, rhaid ei leoli o leiaf 1 metr o ymyl allanol y to.
- Ni ellir gosod pwmp gwres o'r aer ar wal neu do sy'n wynebu priffordd.
- Nid yw rheolau datblygiad a ganiateir yn berthnasol os yw tyrbin gwynt annibynnol eisoes wedi'i osod yng nghwrtil yr eiddo.

Bydd angen caniatâd cynllunio os yw'r eiddo yn adeilad rhestredig, yng nghwrtil adeilad rhestredig, neu ar heneb gofrestredig.

## Eiddo annomestig

Mae'n debygol y bydd angen cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod lleol[5] er mwyn gosod pympiau gwres o'r aer ar dir annomestig

Nodwch: *Yn 2025, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres o'r aer, gan gynnwys dileu'r rheol 3 metr o'r ffin, codi'r cyfyngiadau cyfaint i 1.5 metr ciwbig, caniatáu hyd at ddwy uned ar eiddo sengl, ac estyn y rheolau datblygu a ganiateir i gwmpasu pympiau gwres aer-i-aer. Dylech wirio LLYW.CYMRU[6] i weld y sefyllfa ddiweddaraf.*

## Pympiau Gwres o'r Ddaear

Fel rheol, mae gosod pwmp gwres o'r ddaear yng nghwrtil adeilad annomestig yng Nghymru yn ddatblygiad a ganiateir, yn amodol ar y canlynol:

- Dim ond gosodiad cyntaf pwmp gwres o'r ddaear a fyddai'n cyfrif fel datblygiad a ganiateir.
- Ni ddylai holl arwynebedd y gwaith cloddio fod yn fwy na 0.5 hectar (gan gynnwys y pibellau).
- Nid yw'r gosodiad yng nghwrtil adeilad rhestredig neu ar heneb gofrestredig.

Yn achos eiddo domestig, mae'r un hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol.

## Pympiau Gwres o Ddŵr

Fel rheol, mae gosod pympiau gwres o ddŵr yng nghwrtil adeilad annomestig yng Nghymru yn ddatblygiad a ganiateir, ar yr amod:

- Na fydd holl arwynebedd y gosodiad (gan gynnwys y pibellau) yn fwy na 0.5 hectar.
- Nad yw ei gapasiti yn fwy na 45 cilowat thermol.
- Nad yw'r gosodiad yng nghwrtil adeilad rhestredig neu ar heneb gofrestredig.

[5] Caniatâd cynllunio: pympiau gwres (annomestig) | LLYW.CYMRU
[6] Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir | LLYW.CYMRU

Yn achos pympiau gwres o'r ddaear a phympiau gwres o ddŵr gall fod gofyn sicrhau cydsyniad amgylcheddol ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, ar gyfer drilio twll turio neu dynnu dŵr. Dylid ceisio cyngor proffesiynol.

## Systemau Storio Ynni Batri (BESS)

Fel arfer ni fydd angen caniatâd cynllunio ar systemau batris ar raddfa fach a osodir mewn adeilad (e.e. ochr yn ochr â system Solar Ffotofoltaidd) gan fod gwaith mewnol yn annhebygol o gael ei ystyried yn ddatblygiad. Mae'n bosibl na fydd gosodiadau storio ynni batri mwy o faint neu rai allanol yn ddatblygiadau a ganiateir ac mae'n bosibl felly y bydd angen cyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol. Dylid ceisio cyngor proffesiynol i gadarnhau gofynion y prosiect penodol.

## Tyrbinau Gwynt

## Eiddo domestig

Nid yw tyrbinau gwynt ar adeiladau yn ddatblygiadau a ganiateir yng Nghymru a bydd caniatâd cynllunio[7] yn ofynnol bob amser. Mae'n bosibl y bydd tyrbin gwynt annibynnol (heb ei osod ar adeilad) yng nghwrtil eiddo domestig yn ddatblygiad a ganiateir, cyn belled â'i fod yn cydymffurfio â Safonau Cynllunio MCS ac yn bodloni'r amodau canlynol:

- Dim ond gosodiad cyntaf unrhyw dyrbin gwynt annibynnol a fyddai'n cyfrif fel datblygiad a ganiateir, a hynny ar yr amod nad oes pwmp gwres o'r aer eisoes yn yr eiddo.
- Rhaid i ran uchaf y tyrbin (gan gynnwys y llafnau) fod yn uwch nag 11.1 metr.
- Rhaid i ran isaf unrhyw lafn fod o leiaf 5 metr uwchben y ddaear.
- Ni chaiff yr un rhan o'r tyrbin fod yn agosach at ffin yr eiddo na'r pellter sy'n cyfateb i uchder y tyrbin cyfan a 10% eto o uchder.
- Rhaid i ehangylch y llafnau beidio â bod yn fwy na 9.6 metr sgwâr.
- Rhaid peidio â gosod y tyrbin ar dir a ddiogelir, yng nghwrtil adeilad rhestredig, neu ar heneb gofrestredig.
- Mewn ardaloedd cadwraeth, rhaid peidio â lleoli'r tyrbin ar safle gweladwy o briffordd sy'n ffinio â'r cwrtil.
- Nid yw hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safle Treftadaeth y Byd, neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

## Eiddo annomestig

Ar hyn o bryd nid oes hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer tyrbinau gwynt ar eiddo annomestig yng Nghymru. Bydd gofyn cyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol.

---

[7] Caniatâd cynllunio: tyrbinau gwynt | LLYW.CYMRU

## Mannau Gwefru Cerbydau Trydan

Fel rheol, mae gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd yn ddatblygiad a ganiateir yng Nghymru[8]. Mae yna ddau brif fath o fan gwefru:

*Pwyntiau trydan ar wal (Dosbarth D)*

- Rhaid i'r pwynt trydan a'i orchudd beidio â bod yn fwy na 0.2 metr ciwbig.
- Ni chaiff wynebu priffordd na bod o fewn 2 metr iddi
- Rhaid iddo beidio â bod yn rhan o heneb gofrestredig.

*Pileri gwefru annibynnol â phwyntiau trydan (Dosbarth E)*

- Ni ddylai'r piler gwefru fod yn uwch nag 1.6 metr o'r arwyneb parcio.
- Rhaid iddo beidio â bod o fewn 2 fetr i briffordd.
- Rhaid iddo beidio â bod yn rhan o heneb gofrestredig.
- Ni chaniateir mwy nag un piler gwefru fesul lle parcio.

Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i fannau parcio oddi ar y stryd ar safleoedd domestig ac annomestig. Mae gan awdurdodau lleol hefyd hawliau datblygu a ganiateir i osod mannau gwefru cerbydau trydan a seilwaith cysylltiedig ar eu tir eu hunain.

Nodwch: *Yn 2025, roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir yn cynnwys cynnig i godi uchder mwyaf pileri gwefru cerbydau trydan annomestig o 1.6 metr i 2.7 metr. Dylid gwirio LLYW.CYMRU i weld y sefyllfa ddiweddaraf.*

[8] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019

# Atodiad 4 – Asesiadau ac Arolygon

**Fe'ch cynghorir i droi at adran gynllunio neu wefan eich awdurdod lleol i gael hyd i ddogfennau a chanllawiau sy'n benodol i'ch ardal, gan y gall rheoliadau a gofynion amrywio.**

Yn dibynnu ar natur y prosiect, efallai y bydd angen cynnal yr asesiadau canlynol. **Sylwch mai cyngor cyffredinol yw hyn, ac rydym yn argymell yn gryf eich bod yn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol perthnasol i gadarnhau'r camau gweithredu priodol ar gyfer unrhyw un o'r isod.**

## Arolygon Strwythurol

- Paneli Solar wedi'u Gosod ar y To – Efallai y bydd yn ofynnol cynnal arolwg strwythurol i asesu a all y to gynnal pwysau'r paneli solar a'r llwyth gwynt y byddant yn ei greu. Bydd paneli ar doeon fflat fel arfer yn defnyddio systemau gosod a balast trymach, ac ynghyd ag adeiladau hŷn neu adeiladau â phryderon strwythurol, mae'n debygol iawn y bydd angen arolwg arnynt.
- Pympiau Gwres o'r Aer – Os caiff y pwmp gwres ei osod ar do fflat, efallai y bydd angen cynnal asesiad i sicrhau y gall y strwythur gynnal y pwysau a'r dirgryniadau ychwanegol.

## Arolygon Ecolegol ac Amgylcheddol

Yng Nghymru, rhaid i bob datblygiad lle y mae angen caniatâd cynllunio yn ofynnonl ddangos Budd Net i Fioamrywiaeth o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai ymgeiswyr ystyried gwelliannau bioamrywiaeth (e.e. blychau ystlumod ac adar) yn rhan o gynllun y prosiect.

- Arolwg o Ystlumod – Bydd yn ofynnol os yw'r prosiect yn cynnwys addasiadau i do, gofod llofft, neu hen adeilad lle gallai ystlumod fod yn clwydo. Mae ystlumod yn rhywogaeth a warchodir, ac efallai y bydd angen cynnal arolwg cyn y caiff caniatâd cynllunio ei roi. Os cadarnheir bod ystlumod yno, gall fod gofyn sicrhau trwydded liniaru hefyd. Sylwch y cynhelir arolygon o ystlumod o dan gyfyngiadau tymhorol (Mai–Medi), a dylid cymryd hynny i ystyriaeth wrth lunio amserlen y prosiect.
- Arolwg o Adar neu Fywyd Gwyllt – Bydd yn angenrheidiol os yw'r prosiect yn effeithio ar goed, gwrychoedd, neu adeiladau lle y gallai rhywogaethau adar a warchodir (e.e. tylluanod gwynion) fod yn nythu. Dylid osgoi cynnal gwaith adeiladu a chlirio llystyfiant yn ystod y tymor nythu (Mawrth–Awst) oni bai bod arolwg yn cadarnhau nad oes nythod gweithredol yno.

## Asesiad o Effaith Sŵn

Gall rhai technolegau ynni adnewyddadwy, megis pympiau gwres o'r aer, systemau storio ynni batri, a thyrbinau gwynt gynhyrchu sŵn wrth weithredu. Efallai y bydd

angen cynnal asesiad sŵn, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl neu ar safleoedd lle y mae eiddo cyfagos.

Ar hyn o bryd mae modd gosod pympiau gwres o'r aer yng Nghymru o dan reolau datblygu a ganiateir, cyn belled â bod yr uned o leiaf 3 metr o ffin yr eiddo a'i bod yn bodloni'r safonau sŵn yn Safon Gynllunio 020 MCS. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn 2025 gan gynnig newid y rheolau datblygu a ganiateir yn achos pympiau gwres. Dylid gwirio LLYW.CYMRU[9] i weld y sefyllfa ddiweddaraf cyn symud ymlaen.

Pan fydd gofyn gwneud cais cynllunio, gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn am asesiad o effaith sŵn. Dylech geisio cyngor gan weithwyr proffesiynol i gadarnhau a fydd hynny'n berthnasol i'r prosiect dan sylw.

## Ymchwiliadau tir

- Nifer o Baneli Solar wedi'u Gosod ar y Ddaear – Os ydych yn gosod paneli solar ar dir, efallai y bydd angen cynnal arolwg o gyflwr y tir i asesu sefydlogrwydd y pridd, y systemau draenio, ac effeithiau ecolegol posibl.
- Pympiau gwres o'r ddaear – o ran gosodiadau twll turio neu ffosydd efallai y bydd arolwg daearegol neu hydrolegol yn ofynnol i gadarnhau bod cyflwr y tir yn addas ac i osgoi difrod i wasanaethau tanddaearol neu gyrsiau dŵr.
- System storio ynni batri a chyfarpar mawr arall – efallai y bydd angen asesiad sylfaen er mwyn sicrhau bod y ddaear yn gallu cynnal pwysau'r gosodiad.
- Tyrbinau gwynt – bydd cynllun y sylfaen yn dibynnu ar gyflwr y tir, ac efallai y bydd arolwg yn ofynnol ar gyfer tyrbinau mwy neu dyrbin a osodir ar fast.

[9] Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir | LLYW.CYMRU

# Atodiad 5 – Cynlluniau Cyllid Eraill

Nid yw'r rhestr o raglenni cyllid perthnasol yng Nghymru 2026-2027 a nodir isod yn cynnwys popeth, ond mae'n rhoi rhywfaint o fanylion am y rhaglenni cyllid sydd ar gael.

*Tabl 4 Rhaglenni Cyllid 2026-2027*

| Rhaglen gyllid | Crynodeb | Cymhwystra |
|---|---|---|
| **Y Cynllun Uwchraddio Boeleri (Cymru a Lloegr)** | Mae'r Cynllun Uwchraddio Boeleri yn cynnig grantiau i berchnogion eiddo yng Nghymru a Lloegr er mwyn newid systemau gwres tanwydd ffosil i ddewisiadau amgen carbon isel. Mae grantiau gwerth £7,500 ar gael ar gyfer pympiau gwres o'r aer ac o'r ddaear, a £5,000 ar gyfer boeleri biomas (eiddo gwledig nad ydynt ar y grid yn unig). | Perchnogion eiddo (gan gynnwys busnesau, ail gartrefi, neu eiddo rhent) sy'n amnewid eu systemau gwres tanwydd ffosil neu drydan presennol. Nid yw ar gael os yw'r eiddo eisoes wedi cael arian cyhoeddus ar gyfer pwmp gwres neu foeler biomas. Nid yw adeiladau newydd a thai cymdeithasol yn gymwys. |
| **Cronfa Ynni Glân (Gogledd Cymru yn unig)** | Menter gwerth £25 miliwn a gyflwynir trwy fenthyciadau a grantiau, i gefnogi prosiectau ynni glân ledled Gogledd Cymru, gyda'r nod o gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio gydag elfennau perchnogaeth leol. Cyflwynir y gronfa trwy WCVA (mewn partneriaeth ag Ynni Cymunedol Cymru) yn achos is-gronfa'r sector gwirfoddol, a thrwy UMi yn achos is-gronfa'r sector preifat. Bydd y cynllun pum mlynedd hwn yn derbyn ceisiadau nes y bydd yr holl arian wedi'i ddyrannu. | Sefydliadau'r sector gwirfoddol a busnesau'r sector preifat sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn) neu sydd â phresenoldeb yno.<br><br>Strwythur y cyllid: grant o 50% (isafswm o £25,000, uchafswm o £500,000), benthyciad di-log o 25% (hyd at £250,000), gyda 25% o arian cyfatebol yn ofynnol. |
| **DiGarbon (Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn unig)** | Mae Digarbon yn darparu benthyciadau i helpu i ysgogi'r sector addysg drydyddol i gyflawni allyriadau sero net. | Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch cyhoeddus yng Nghymru yn gymwys i wneud cais. |
| **Y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd (BBaChau yn unig)** | Mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi pecyn cymorth i fusnesau Cymru, gan gynnwys benthyciadau busnes gwyrdd, i'w helpu i leihau allyriadau carbon a chaniatáu i fusnesau arbed arian ar filiau ynni yn y dyfodol. | I wneud cais am y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, rhaid i gwmnïau cyfyngedig, unig fasnachwyr, neu bartneriaethau fod wedi'u lleoli yng Nghymru ac wedi bod yn masnachu am o leiaf ddwy flynedd, gydag o leiaf un set o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfrifon blynyddol wedi'u ffeilio.<br>Mae'r cynllun wedi cael ei ehangu i £20 miliwn gyda'r cyllid ar gael tan 2028. |
| **Grant Gwres Carbon Isel Awdurdodau Lleol (LALCHG)** **(Awdurdodau Lleol yn unig)** | Grant Llywodraeth Cymru sy'n cynnig cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ôl-osod datrysiadau gwres carbon isel mewn adeiladau annomestig sy'n eiddo i awdurdodau lleol. Mae'n helpu awdurdodau lleol i roi prosiectau gwres carbon isel ar waith yn rhan o'u taith tuag at gyflawni Sero Net.<br>Darperir grantiau cyfalaf i gefnogi prosiectau sy'n gallu cwblhau'r gwaith a gyllidir erbyn 31 Mawrth 2027. | Awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â phrosiectau sy'n barod i weithredu. |
| **Gwarant Allgludo Clyfar (SEG)** | Mae'r Warant Allgludo Clyfar yn caniatáu i ymgeiswyr gael taliadau am drydan dros ben a gynhyrchir gan eu paneli solar a gaiff ei allgludo yn ôl i'r grid. Er nad yw'n grant, mae'n darparu ffrwd refeniw barhaus a all wrthbwyso costau gosod. | Bydd angen i ymgeiswyr feddu ar system cynhyrchu ynni ardystiedig a mesurydd allgludo/clyfar i wneud cais. |
| **Grant Arbed Ynni Chwaraeon Cymru** **(Clybiau chwaraeon nid-er-elw a grwpiau cymunedol yn unig)** | Mae'r Grant Arbed Ynni Chwaraeon yn cynnig hyd at £25,000 i helpu clybiau chwaraeon yng Nghymru i wneud gwelliannau arbed ynni yn eu cyfleusterau, gan gynnwys paneli solar, system storio ynni batri, goleuadau LED ac uwchraddio systemau gwresogi. | Clybiau chwaraeon nid-er-elw a grwpiau cymunedol yng Nghymru sy'n berchen ar eu cyfleusterau neu a chanddynt o leiaf 7 mlynedd ar ôl ar eu prydles. Mae cyfraniad gwerth o leiaf 20% o gyfanswm costau'r prosiect yn ofynnol. Asesir ceisiadau ar sail eu heffaith arbed ynni |
| **Y Gronfa Ynni Lleol** **(Sefydliadau Cymunedol a BBaChau yn unig)** | Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu benthyciadau i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy bach nad ydynt yn gallu cyrchu cyllid masnachol. | Gall grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, modelau perchnogaeth leol, a busnesau bach a chanolig wneud cais. |
| **Rhaglen Gyllido Cymru - Salix (y** | Cynllun a gynhelir gan Salix Finance ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n darparu benthyciadau ar gyfer | Mae'r cynllun wedi'i dargedu at sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, |

| | | |
|---|---|---|
| **Sector Cyhoeddus yn unig)** | prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio i gyrff sector cyhoeddus a gofrestrwyd yng Nghymru. | ysgolion, prifysgolion, colegau, a'r gwasanaethau brys. |
| **Grant Ymestyn** | Un o gronfeydd Llywodraeth Cymru a gefnogir gan Great British Energy yw'r Grant Ymestyn, sy'n darparu grant cyfalaf 'atodol' er mwyn gwella'r ad-daliadau ariannol i brosiectau ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth leol. Gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyllid arall gan Lywodraeth Cymru megis Rhaglen Gyllido Cymru. Mae'r grant yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cysylltiedig ag adeiladau ac allgludo i'r grid, sy'n barod i weithredu. | Cyrff sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol yng Nghymru.<br><br>Mae'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ag achosion ariannol heriol y mae eu cyfnod ad-dalu yn fwy na 10 mlynedd.<br><br>Rhaid cwblhau a chomisiynu'r prosiectau erbyn 30 Tachwedd 2026. |

# Atodiad 6 – Amodau Rhagariannu

Y canlynol yw'r rhestr lawn o'r amodau rhagariannu a fydd yn rhan o Lythyr Cynnig Grant Safonol Llywodraeth Cymru a anfonir at ymgeiswyr llwyddiannus. Rhaid darparu tystiolaeth o rai neu'r holl amodau hyn cyn cael hawlio unrhyw ran o'r grant. Cynghorir ymgeiswyr i ddarparu tystiolaeth o'r amodau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth dalu. Ni fydd cyllid yn cael ei ryddhau oni bai bod yr holl dystiolaeth wedi'i darparu.

*Tabl 6 Amodau Rhagariannu*

| Amod Rhagariannu | Tystiolaeth Angenrheidiol |
|---|---|
| **Prawf o berchnogaeth yr eiddo neu'r brydles** | Cofrestr teitlau'r Gofrestrfa Tir (yn achos perchennog eiddo) neu gytundebau prydles wedi'u llofnodi sy'n cwmpasu'r safle. |
| **Cydsyniad y landlord (lle bo'n berthnasol)** | Cydsyniad ysgrifenedig gan landlord, rhydd-ddeiliad neu berchennog yr eiddo, yn cymeradwyo'r gosodiad SLES arfaethedig. |
| **Cydsyniad y cwmni morgais neu'r rhoddwr benthyciadau diogel (lle bo'n berthnasol)** | Cadarnhad ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) oddi wrth ddarparwr y morgais neu roddwr y benthyciad diogel yn cymeradwyo'r gosodiad SLES arfaethedig. Efallai y bydd angen chwilio'r Gofrestrfa Tir i gadarnhau a oes buddiant morgais yn bod. |
| **Pob caniatâd cynllunio angenrheidiol neu gadarnhad o ddatblygiad a ganiateir** | Copi o gymeradwyaeth gynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, neu gadarnhad ysgrifenedig fod y gwaith o fewn cwmpas hawliau datblygu a ganiateir. |
| **Cynnig i gysylltu â'r grid gan y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (os yw'n ofynnol)** | Cynnig ffurfiol i gysylltu â'r grid oddi wrth y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu perthnasol (e.e. NGED neu SPEN), gan gynnwys rhif cyfeirnod a'r cyfnod dilysrwydd. |
| **Dyluniad terfynol y system pwmp gwres o'r aer, Solar Ffotofoltaidd a/neu'r System storio ynni batri** | Adroddiad dylunio, lluniau o'r gosodiad neu fanyleb dechnegol a luniwyd gan osodwr cymwys. Bydd dyfynbris sy'n cynnwys dyddiad a gwybodaeth am ddyluniad y system yn dderbyniol. |
| **Arolwg strwythurol (lle bydd hynny'n ofynnol ar gyfer gosodiadau ar y to)** | Adroddiad arolwg strwythurol gan beiriannydd strwythurol cymwysedig, neu gadarnhad ysgrifenedig gan osodwr achrededig (e.e. wedi'i ardystio gan MCS) yn cadarnhau bod modd i'r to gynnal y llwythi arfaethedig. |
| **Cadarnhad bod yr arian cyfatebol wedi'i sicrhau** | Adroddiad banc, cytundeb benthyciad, penderfyniad bwrdd, llythyr dyfarnu cyllid, neu gadarnhad ffurfiol arall sy'n dangos bod yr arian cyfatebol angenrheidiol wedi'i sicrhau. |
| **Cytundeb cydweithio wedi'i lofnodi (lle bo'r prosiect yn cynnwys sefydliadau partner)** | Cytundeb wedi'i lofnodi sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid, y trefniadau llywodraethu, a'r trefniadau rhannu costau/buddion. |

| | |
|---|---|
| **Polisi caffael (os yw ar gael neu'n ofynnol)** | Dogfen polisi caffael sy'n amlinellu egwyddorion, prosesau, dulliau gwerthuso, y dull cadwyn gyflenwi moesegol, a'r gweithdrefnau ar gyfer delio â gwrthdaro buddiannau. |
| **Y dogfennau caffael a roddwyd i gyflenwyr** | Copïau o'r tendr neu'r dogfennau gwahodd dyfynbrisiau a gyhoeddwyd, gan gynnwys manylebau a meini prawf gwerthuso. |
| **Tystiolaeth o'r dyfynbrisiau neu'r tendrau a ddaeth i law** | Pob dyfynbris a ddaeth i law. |
| **Cofnod gwerthuso a dewis cyflenwr** | Adroddiad gwerthuso wedi'i lofnodi sy'n dangos y meini prawf sgorio, canlyniadau'r asesiad, a'r sail resymegol dros ddewis y cyflenwr. |
| **Datganiad o Ddiddordeb Gwrthdaro** | Ffurflen datganiad Gwrthdaro Buddiannau (COI) wedi'i lofnodi gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau prynu. |
| **Cadarnhad o yswiriant adeiladau** | Cadarnhad ysgrifenedig gan yswiriwr yr adeilad y bydd y polisi presennol yn parhau i fod yn ddilys ac y bydd yswiriant digonol ar gyfer yr adeilad (gan gynnwys cyfarpar y gosodiad SLES newydd). |
| **Gwiriadau Atal Gwyngalchu Arian a throseddau ariannol** | Unrhyw wybodaeth y byddai'n rhesymol i Ynni Cymru neu Lywodraeth Cymru ofyn amdani er mwyn cwblhau gwiriadau atal gwyngalchu arian, atal twyll a throseddau ariannol. |

# Atodiad 7 – Cwestiynau ac Atebion o Gweminar Cynllun Grant Cyfalaf Ynni Cymru

## Proses Gais

**A fydd y ffurflen gais ar gael i'w gweld cyn cyflwyno cais?**

Bydd y ffurflen gais a'r ganllaw ar gael ar-lein fel y gall ceisiwr adolygu'r gofynion.

**A fydd y ffurflen gais ar gael yn Gymraeg?**

Bydd y ffurflen gais a'r ganllaw ar gael yn Gymraeg.

**Os na fydd cwestiynau a godir yn ystod y we-gweithdy yn cael eu hateb, ble gallwn ddod o hyd i atebion?**

Cyfeiriwch at y Nodyn Canllaw. Os yw eich ymholiad yn benodol i brosiect, rydym yn argymell mynychu un o sesiynau galw heibio Ynni Cymru lle gall y tîm ddarparu cyngor pellach.

**A all ceisiwr gael mynediad at sleidiau neu adnoddau o'r sesiynau gwe-gweithdy?**

Fe fydd adnoddau a sleidiau o'r sesiynau yn cael eu rhannu ar ôl y gweminar.

## Cymhwysedd

**A yw Cwmnïau Buddiant Cymunedol (CICs), elusennau, neu sefydliadau dielw yn gymwys?**

Ydy. Gall sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys elusennau a CICs, fod yn gymwys lle maent yn bodloni gofynion y cynllun.

**A fyddai cydweithrediad â landlord cymdeithasol neu sefydliad arall yn gymwys?**

Caniateir ceisiadau cydweithredol. Rhaid i ymgeisydd arweiniol gyflwyno'r cais a bydd yn parhau'n gyfrifol am gyflwyno'r prosiect a chydymffurfio â'r gofynion. Mynychwch un o'n sesiynau galw heibio i drafod eich prosiect penodol.

**A all sefydliadau gyflwyno mwy nag un cais?**

Gall. Gall sefydliadau gyflwyno sawl cais, ond uchafswm y grant a ddyfernir i bob sefydliad yw £999,999.99 ar draws pob cais.

**A yw sefydliadau sy'n prydlesu adeilad yn gymwys i wneud cais?**

Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt yr hawliau angenrheidiol i osod a chadw'r offer ar y safle. Rhaid i gytundebau prydles fod am o leiaf dair blynedd o ddyddiad y cais, a rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn gallu cadw a chynnal yr asedau a ariennir

am gyfnod perchnogaeth yr ased a ariennir (10 mlynedd ar hyn o bryd) fel y nodir yn Llythyr Dyfarnu Grant Llywodraeth Cymru. Lle mae eiddo yn destun morgais neu fenthyca diogel arall, dylai ymgeiswyr gadarnhau gyda'r benthyciwr bod y gwaith arfaethedig yn dderbyniol.

## Cwmpas a Chymhwysedd y Prosiect

**A yw prosiectau fesul cam yn gymwys?**

Rhaid i'r elfennau a ariennir drwy'r grant gael eu cyflawni o fewn cyfnod cyflwyno'r cynllun, sef erbyn 31 Mawrth 2027, a rhaid iddynt ffurfio rhan o System Ynni Leol Glyfar (SLES) sy'n cydymffurfio.

**A all technolegau presennol sydd eisoes wedi'u gosod gyfrif tuag at y system?**

Gall. Gall technolegau cymwys sydd eisoes yn bodoli gyfrif tuag at fodloni gofynion SLES lle maent yn rhan o system integredig.

**A all gwresogyddion isgoch sy'n cael eu pweru gan solar PV gyfrif fel technoleg wresogi carbon isel?**

Cyfeiriwch at yr adran Technolegau Cymwys yn y nodyn canllaw. Nid yw gwresogi trydan uniongyrchol (megis gwresogyddion isgoch) fel arfer yn cael ei ystyried yn arfer gorau ar gyfer gwresogi carbon isel, a dim ond lle gall ymgeiswyr ddangos yn gadarn mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol y caiff ei ystyried.

Lle cynigir solar PV i gefnogi gwresogi trydan, dylai ymgeiswyr ddangos yn glir sut y bydd y technolegau yn gweithredu gyda'i gilydd fel rhan o System Ynni Leol Glyfar. Dylai hyn gynnwys cyfrifiadau sy'n dangos y cyfraniad realistig y gall cynhyrchu solar PV ei wneud at y galw am wres.

Anogir ymgeiswyr sy'n ansicr ynghylch cymhwysedd technoleg i drafod eu prosiect yn ystod sesiynau galw heibio Ynni Cymru.

**A ellir ariannu arolygon neu waith dichonoldeb?**

Fel rheol nid yw gwaith dichonoldeb neu waith cysyniad yn gymwys i gael cyllid; mae'n debygol y bydd gwaith o'r fath yn digwydd cyn gwneud cais ac felly ni ellir ei hawlio'n ôl-weithredol.

Mae'r cynllun yn cefnogi gwaith cyfalaf yn bennaf. Cyfeiriwch at y nodyn canllaw am gostau cymwys ac anghymwys.

**A fyddai gosod paneli solar, seilwaith EV a batris yn gymwys os ydynt yn rhan o system ehangach?**

Rhaid i brosiectau ffurfio System Ynni Leol Glyfar sy'n integreiddio nifer o dechnolegau, a rhaid i'r rhain gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwres carbon isel, a rheolaethau clyfar ar gyfer Llwybr 1 a 2. Gall hyn gynnwys offer sydd eisoes wedi'i osod.

## Cyllid a Chyllid Cyfatebol

**A oes angen cyllid cyfatebol?**

Oes. Y gofynion cyllid cyfatebol lleiaf yw:

- Sefydliadau'r sector cyhoeddus: 25%
- Busnesau bach a chanolig (BBaCh): 25%
- Sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol: 0%

**A ellir defnyddio grantiau neu fenthyciadau eraill fel cyllid cyfatebol?**

Dylai ymgeiswyr archwilio ffynonellau cyllid eraill. Ni ellir defnyddio grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru fel cyllid cyfatebol, ond gellir defnyddio benthyciadau Llywodraeth Cymru fel cyllid cyfatebol. Rhaid i'r cyllid cyfatebol gael ei ddyrannu i gostau cymwys sy'n cefnogi'n uniongyrchol osod y SLES, gyda phrosiectau i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2027.

**A oes cap ar gyllid Solar PV?**

Oes. Ar gyfer BBaCh a sefydliadau'r sector cyhoeddus, mae cyllid Solar PV wedi'i gapio ar 40% o'r costau cyfalaf cymwys, yn ddarostyngedig i reolau ad-dalu'r cynllun. Cyfeiriwch at y Nodyn Canllaw am wybodaeth fanylach.

## Asesu a Chyfraddau Llwyddiant

**Faint o geisiadau a dderbyniwyd yn y rownd flaenorol?**

Derbyniwyd 116 o geisiadau yn y rownd flaenorol.

**Beth yw cyfradd llwyddiant y ceisiadau?**

Dyfernir cyllid drwy broses gystadleuol ac mae cyfraddau llwyddiant yn amrywio yn ôl ansawdd y cais a'r gyllideb sydd ar gael.

**A all ymgeiswyr gael adborth neu sgoriau o rowndiau blaenorol?**

Darparwyd adborth i ymgeiswyr o rowndiau blaenorol ar gais.

## Cyflawnadwyedd a Gofynion y Prosiect

**A yw amser staff yn gost gymwys?**
Ydy. Gellir cynnwys amser staff lle mae'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflwyno'r prosiect ac yn adlewyrchu costau cyflogaeth gwirioneddol. Cyfeiriwch at y Nodyn Canllaw am wybodaeth fanylach.

**A ellir defnyddio fframweithiau fel LASER ar gyfer caffael?**
Dylai ymgeiswyr ddilyn y canllawiau caffael o fewn dogfennaeth y cynllun a sicrhau bod prosesau'n dangos tryloywder ac yn sicrhau gwerth am arian.

**A all prosiectau o dan Llwybr 2 gael estyniadau cyflwyno?**
Rhaid i brosiectau gael eu cyflwyno o fewn amserlen y cynllun (31 Mawrth 2027).

## Gofynion System Ynni Leol Glyfar (SLES)

**Beth sy'n gymwys fel System Ynni Leol Glyfar?**

Mae SLES yn integreiddio nifer o dechnolegau megis:

- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy
- Gwresogi carbon isel
- Systemau rheoli clyfar

Rhaid i'r technolegau hyn weithredu gyda'i gilydd fel system gydgysylltiedig. Cyfeiriwch at egwyddorion System Ynni Leol Glyfar (SLES) yn y Canllaw Cynllun Grant.

**A all prosiect technoleg sengl wneud cais?**

Na. Nid yw gosodiadau technoleg sengl yn gymwys.

## Amddifadedd a Budd Cymunedol

**Beth yw'r mynegai amddifadedd a gyfeirir ato yn y canllaw?**

Mae'r cynllun yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i nodi ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd.

**A ellir dangos amddifadedd gan ddefnyddio dangosyddion eraill?**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw'r metrig a ddefnyddir i bennu cymhwysedd ar gyfer yr uwch-sgôr asesu amddifadedd. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr i ddisgrifio'n glir sut y bydd eu prosiect yn darparu buddion i gymunedau, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gyd-destun lleol, y cymunedau y disgwylir iddynt elwa, a sut y bydd y prosiect yn cefnogi grwpiau bregus neu grwpiau blaenoriaeth.

## Cwestiynau Technegol a Pholisi

**A yw technolegau fel ynni hydro yn gymwys?**

Gall cynlluniau hydro fod yn gymwys lle maent yn ffurfio rhan o System Ynni Leol Glyfar ac yn bodloni gofynion y cynllun. Fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r prosiect yn parhau'n 31 Mawrth 2027, a all fod yn heriol ar gyfer unrhyw adeiladu hydro newydd a gynigir.

**A yw technolegau arloesol megis systemau ynni AI yn cael eu hystyried?**

Gellir ystyried systemau arloesol lle maent yn cyfrannu at egwyddorion SLES ac yn dangos manteision clir.